ColegauCymru
CollegesWales




# I BLE YR AETHON NHW?

## ASTUDIAETH I ARCHWILIO MESURAU OLRHAIN GRADDEDIGION VET YNG NGWLEDYDD EWROP

# Tabl Cynnwys

*Rhagair* ........ *3*

*Crynodeb gweithredol* ........ *5*

*1. Cyflwyniad* ........ *6*

*2. Methodoleg yr astudiaeth* ........ *9*

*3. Y cyd-destun strategol* ........ *12*

*4. Mesurau olrhain VET mewn gwledydd Ewropeaidd* ........ *18*

4.1 Trosolwg ........ 18

4.2 Yr Iseldiroedd ........ 20

4.3 Iwerddon ........ 24

4.4 Sbaen ........ 27

4.5 Yr Eidal ........ 31

4.6 Awstria ........ 34

4.7 Gwlad Groeg ........ 37

4.8 Datblygiadau mewn gwledydd eraill ........ 39

*5. Asesu'r mesurau a'r dulliau gweithredu* ........ *42*

*6. Gwersi allweddol ac ystyriaethau at y dyfodol* ........ *47*

*7. Casgliadau ac argymhellion* ........ *54*

# Rhagair

Mae ymadrodd cyfarwydd yn dweud, "mewn gwybodaeth mae grym". Gellid ymestyn fersiwn arall o'r sentiment hon a dweud, "wrth roi gwybodaeth ar waith yn strategol mae grym”. Mae'r prosiect ymchwil terfynol hwn, a'r olaf i Golegau Cymru, ac a wireddwyd oherwydd cyllid EQAVET yr Undeb Ewropeaidd, yn trafod yn union hynny: creu sail wybodaeth gadarn ynghylch sut ac i ble mae dysgwyr galwedigaethol yn mynd unwaith iddynt adael y coleg ac yna cymhwyso'r wybodaeth honno yn ein dulliau cynllunio, cyllido a sicrhau ansawdd – sef rhoi gwybodaeth ar waith yn strategol.

Mae'r gallu i ddeall i ble mae dysgwyr galwedigaethol neu 'raddedigion' yn mynd a beth maent yn ei wneud unwaith iddynt gwblhau cyfnod arbennig yn eu haddysgu a'u hyfforddiant wedi dod yn faes sydd o ddiddordeb cynyddol i sefydliadau, llywodraethau a'r rhai sy'n llunio polisi. Mae hyn yn wir am Gymru yn ogystal ag am Ewrop a'r byd ehangach.

Mae gwybod am brofiadau tymor hwy graddedigion galwedigaethol, p'un a ydynt yn aros ym maes eu hastudiaethau neu'r meysydd maent wedi cymhwyso ynddynt, eu llwybrau gyrfaol a manylion cysylltiedig eraill oll o gymorth i amrywiol randdeiliaid i gynllunio at y dyfodol.  I ddysgwyr sy'n ystyried gyrfaoedd mewn maes galwedigaethol arbennig, bydd y gallu i wneud penderfyniadau gwybodus ar sail enillion neu gyfleoedd tebygol neu bosibl i symud ymlaen o gymorth. I ddarparwyr a chyllidwyr, gallai gwybod a fu i raddedigion galwedigaethol aros yn eu diwydiant gwreiddiol neu symud i faes cysylltiedig neu rywbeth hollol newydd fod o gymorth wrth ddylunio cynnwys cyrsiau. Mae gan y cyfle i ddeall llifau'r farchnad lafur yn well drwy wahanol feysydd galwedigaethol hefyd oblygiadau diddorol ac ymarferol ar gyfer polisi addysg, economaidd a sgiliau yn y dyfodol.

Fodd bynnag, nid yw'r cwestiynau gorau i'w gofyn, y ffyrdd gorau o gasglu data a'r ffyrdd gorau o ddadansoddi a rhannu canfyddiadau'r camau nesaf i ddysgwyr galwedigaethol yn eglur.  Am y rheswm hwn, sefydlodd ColegauCymru dîm prosiect i ymchwilio cynnydd a wnaed yn y maes hwn mewn rhannau eraill o Ewrop, gan geisio asesu'r hyn y gallai Cymru ei ddysgu er mwyn gwella ein gallu ni ein hunain i 'olrhain' ein graddedigion galwedigaethol.

I gychwyn, dyluniwyd y prosiect i ymweld â sawl un o ranbarthau Ewrop, ymweld â chyfleusterau a siarad yn uniongyrchol ag asiantaethau perthnasol. Fodd bynnag, ar ôl un ymweliad yn unig (i Iwerddon ym mis Rhagfyr 2019), daeth yn amlwg y byddai Covid-19 yn ei gwneud yn amhosibl teithio mwyach. Cododd tîm y prosiect yn gampus i'r her o symud yn fuan i gynnal cyfarfodydd a chyfweliadau'n rhithwir. Mae canlyniadau'r ymchwil yn creu deunydd darllen diddorol yn y lle cyntaf ac yn cynnwys camau ymarferol i allu gwneud cynnydd o ran olrhain graddedigion galwedigaethol Cymru.

Roedd yr ymchwil hon yn bosibl oherwydd cyllid yr Undeb Ewropeaidd drwy grant EACEA i Bwyntiau Cyfeirio Cenedlaethol EQAVET, y mae ColegauCymru'n eithriadol o ddiolchgar amdano. Estynnwn ein diolch i'r tîm ymchwil a oedd yn cynnwys Phil Witney, Llŷr Roberts a Nia Brodrick a lwyddodd i oresgyn yr heriau a'r trybini a wynebodd y prosiect oherwydd Covid-19. Gwerthfawrogwn hefyd y cyfraniadau a gafwyd gan y rhai a roddodd o'u hamser ac a rannodd eu harbenigedd sylweddol yn rhan o'r broses gyfweld er mwyn cyfrannu at yr ymchwil hon, a hynny ar draws llu o ranbarthau Ewropeaidd ac yng Nghymru. Mae eu mewnbwn nhw, a mewnbwn pob un a helpodd neu a gyfrannodd at y prosiect yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, wedi bod yn amhrisiadwy.

Proses gydweithredol lle mae ewyllys da pob un sy'n cyfrannu'n hanfodol sy'n gwneud yr ymchwil fwyaf effeithiol. Mae hyn hyd yn oed yn fwy gwir pan fydd ymchwil yn croesi ffiniau rhyngwladol. Wrth i Gymru geisio torri ei chwys ei hun y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd, mae ColegauCymru'n edrych ymlaen at barhau i weithio gyda phartneriaid Ewropeaidd i archwilio a deall effaith gadarnhaol addysg bellach ar ein dinasyddion. Gallai'r adroddiad hwn ddynodi diwedd ffrwd gyllid a ddiffiniodd gyfnod o gyfle digynsail i Gymru gydweithredu gyda phartneriaid yn Ewrop. Nid yw ymrwymiad ColegauCymru i ymgysylltu, gwrando a dysgu o'r arfer gorau rhyngwladol, fodd bynnag, wedi'i bylu. Parhawn i gael ein sbarduno gan ein gweledigaeth am Gymru lle credwn fod gan bob dysgwr yr hawl i dderbyn addysg o'r radd flaenaf.

## Dr Rachel Bowen

Cyfarwyddwr Polisi a Materion Cyhoeddus

ColegauCymru

## Crynodeb gweithredol

Yn sgil y ffaith bod olrhain graddedigion VET (addysg a hyfforddiant galwedigaethol) wedi troi'n flaenoriaeth bolisi yn yr Undeb Ewropeaidd yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r galw am fewnwelediad a chymorth polisi wedi dwysáu ar draws gwledydd a rhanbarthau. Mae'r awydd i gyfoethogi ymhellach y mesurau presennol i olrhain graddedigion VET yng Nghymru wedi arwain at awch am wybodaeth ac ymgais i ddeall yn well beth sydd ynghlwm wrth fesurau olrhain cadarn sydd wedi'u hymwreiddio.

Nod yr astudiaeth hon oedd nodi arferion gorau a gwersi o wledydd Ewrop. Roedd yn cynnwys dull gweithredu cymysg, gan gynnwys adolygiad pen desg o fesurau olrhain graddedigion VET a gwaith maes gyda chynrychiolwyr o wledydd astudiaethau achos dethol. Bu tîm yr astudiaeth yn gweithio gyda chynrychiolwyr o Ewrop i drafod eu barn am berfformiad y mesurau sydd yn eu lle ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol.

Roedd pwysigrwydd gallu casglu, dadansoddi a defnyddio data drwy fesurau olrhain graddedigion er mwyn helpu myfyrwyr i wneud penderfyniadau gwybodus am eu haddysg bellach a'u hyfforddiant yn thema allweddol yn yr ymchwil. Trafododd y cyfweleion hefyd bwysigrwydd defnyddio'r mewnwelediad i sicrhau bod y ddarpariaeth ddysgu'n berthnasol ac yn effeithiol a'i bod yn cyfrannu at wella perfformiad darparwyr dysgu.

At ei gilydd, disgrifiodd y cyfweleion ddull gweithredu mwy cyson o gasglu data mewn gwledydd fel yr Iseldiroedd, Iwerddon, y Ffindir ac Awstria lle mae mesurau systematig wedi'u cyflwyno. Drwy ddatblygu setiau data cyson ar lefel genedlaethol, gwelwyd gwelliant sylweddol yn ansawdd y mewnwelediad. Mae data arolygon hefyd wedi'i ddefnyddio ar lefel genedlaethol a lefel darparwyr i olrhain cynnydd graddedigion VET, gyda rhai gwledydd yn cyfuno'r dull gweithredu hwn â data gweinyddol.

Mae ein hymchwil wedi dangos pwysigrwydd tystiolaeth ansoddol a meintiol i helpu i ddatblygu darlun mwy cynhwysfawr am daith myfyrwyr. Esboniodd rhanddeiliaid o Gymru fod data gweinyddol wedi'u helpu i ddatblygu rhan o'r stori ond bod angen gwaith pellach i gyfoethogi'r dystiolaeth. Mae cyfle bellach i lunio dull gweithredu cyson mewn partneriaeth â cholegau, gydag ystyriaeth ynghylch pryd a sut caiff y dystiolaeth ei chyfathrebu i randdeiliaid allweddol.

# 1. Cyflwyniad

Ym mis Ebrill 2019, dechreuodd ColegauCymru astudiaeth i archwilio mesurau olrhain graddedigion Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol (VET) a ddefnyddir mewn sampl o wledydd Ewrop. Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau'r astudiaeth ac yn amlygu sawl ystyriaeth i lywio datblygiadau yng Nghymru.

Mae olrhain graddedigion ym maes VET wedi dod yn flaenoriaeth bolisi yn yr Undeb Ewropeaidd (UE) yn y blynyddoedd diwethaf. Tanlinellodd *A New Skills Agenda for Europe* (2016)[1] mor bwysig oedd hi i aelod-wladwriaethau ddatblygu gwell dealltwriaeth o berfformiad graddedigion tra bod adroddiad terfynol *Mapping of VET graduate tracking measures in EU Member States* (2017)[2] yn pwysleisio'r angen i wella argaeledd tystiolaeth ansoddol a meintiol am raddedigion ym maes VET yn Ewrop.

Yn erbyn cefndir yr ymchwil hon a gwaith datblygu polisi, nod astudiaeth olrhain graddedigion VET ColegauCymru oedd nodi arfer gorau a gwersi o wledydd Ewrop. Drwy ddull gweithredu ar sail tystiolaeth, rhagwelwyd y byddai'r astudiaeth yn cyfrannu at gyfeiriad gwaith olrhain VET yng Nghymru yn y dyfodol. Nod tîm yr astudiaeth oedd archwilio modelau sydd ar waith ym maes systemau olrhain graddedigion VET mewn gwledydd neu ranbarthau tebyg a oedd yn dangos dulliau safonol o gasglu a defnyddio data.

Gofynion penodol yr astudiaeth oedd:

- Cyfrannu at gasglu a defnyddio gwybodaeth am gyflogadwyedd graddedigion VET, gan gynnwys cyfuno data am ddysgu, mynediad i'r farchnad lafur a gyrfaoedd ar lefel system VET a lefel darparwyr; a
- Sicrhau bod gwybodaeth am olrhain graddedigion VET a rhagolygon anghenion sgiliau'n cael eu defnyddio ar lefel system VET a lefel darparwyr i wella darpariaeth VET a chymwysterau VET ar bob lefel.

At hynny, byddai'r astudiaeth yn:

- Archwilio sut gellir rhoi canlyniadau'r uchod ar waith orau yng Nghymru.

---

[1] Soldi, R. et al. (2016) A New Skills Agenda for Europe, yr Undeb Ewropeaidd.
[2] ICF Consulting (2017) 'Mapping of VET graduate tracking measures in EU Member States', Cyfarwyddiaeth Gyffredinol Cyflogaeth, Materion Cymdeithasol a Chynhwysiant, Y Comisiwn Ewropeaidd. [Mapping of VET graduate tracking measures in EU Member States - Publications Office of the EU (europa.eu)]

- Ymchwilio sut mae gwybodaeth am olrhain graddedigion VET a rhagolygon anghenion sgiliau'n cael eu defnyddio ar lefel system VET a lefel darparwyr i wella darpariaeth VET a chymwysterau VET ar bob lefel.
- Cefnogi'r argymhellion a amlinellir yn adroddiad 2017 y Comisiwn Ewropeaidd ar fapio mesurau olrhain graddedigion VET yn Aelod-wladwriaethau'r UE, ac yn benodol:
  - Argymhelliad 3: Sicrhau bod mesurau rheolaidd ar gyfer olrhain graddedigion VET yn cynnwys ystod lawn yr wybodaeth ofynnol i asesu ansawdd a pherthnasedd darpariaeth VET, gan gynnwys sut cânt eu hintegreiddio yn y farchnad lafur a dilyniant i astudiaethau pellach; ac
  - Argymhelliad 8: Cynyddu pa mor hylaw mae’r data a gyhoeddir a sut mae'n hyrwyddo cysylltiadau rhwng y rhai sy'n rheoli mesurau olrhain a darpar ddefnyddwyr data.

Deellir yn gyffredin mai olrhain graddedigion yw'r set o ddulliau gweithredu systematig sy'n cael eu rhoi yn eu lle i gofnodi gwybodaeth am raddedigion mewn perthynas â'u cynnydd dysgu, sgiliau a gafaelwyd, dirnadaethau, llwybrau i gyflogaeth, hunangyflogaeth, neu hyfforddiant pellach[3]. Yn y bôn, defnyddir olrhain i gofnodi gwybodaeth am gyrchfannau graddedigion VET. Gyda'r term yn cael ei ddefnyddio mewn gwahanol gyd-destunau, mae'n werth pwysleisio bod y term graddedigyn/graddedigion, at ddiben yr astudiaeth hon, yn cyfeirio at unrhyw unigolyn sydd wedi cwblhau rhaglen VET, ni waeth ar ba lefel addysgol. Gall olrhain hefyd ddarparu mewnwelediad ynghylch dysgwyr sy'n terfynu rhaglen ddysgu neu'n trosglwyddo i raglenni eraill.

Cafodd yr astudiaeth hon ei rheoli a'i chyflawni gan GolegauCymru, y sefydliad cenedlaethol sy'n cynrychioli'r holl golegau Addysg Bellach (colegau AB) yng Nghymru. Mae'r sefydliad yn gweithredu ar ran Llywodraeth Cymru fel y Pwynt Cyswllt Cenedlaethol (NCP) yng Nghymru ar gyfer y Fframwaith Cymwysterau Galwedigaethol (EQF), y System Credydau Ewropeaidd ar gyfer Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol (ECVET) a Sicrwydd Ansawdd Ewrop ym maes Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol (EQAVET). Dyfarnwyd grant i GolegauCymru gan Bwyntiau Cyfeirio Cenedlaethol (NRP) EQAVET, o dan Gam Gweithredu Allweddol 3: Cymorth i Ddiwygio Polisi'r Rhaglen Erasmus+, i ymgymryd â'r astudiaeth. Bu i'r astudiaeth gynrychioli'r trydydd prosiect i GolegauCymru ymgymryd ag ef drwy alwad gyfyngedig EQAVET.

Cyflwynir yr adroddiad mewn saith pennod fel a ganlyn:

- Pennod un: y cyflwyniad hwn i'r adroddiad.
- Pennod dau: sy'n cyflwyno dull yr ymchwil.

[3] Gwefan Prosiect Tracktion. Ar gael yn: https://tracktionerasmus.eu (Cyrchwyd 9 Tachwedd 2020).

- Pennod tri: sy'n trafod y cyd-destun strategol a pholisi yn Ewrop a Chymru.
- Pennod pedwar: sy'n disgrifio'r mesurau olrhain graddedigion VET mewn rhai gwledydd Ewropeaidd.
- Pennod pump: sy'n darparu asesiad o'r mesurau a'r dulliau gweithredu.
- Pennod chwech: sy'n myfyrio ar y gwersi allweddol ac yn amlygu ystyriaethau at y dyfodol.
- Pennod saith: sy'n tynnu ar gasgliadau ac argymhellion yr astudiaeth.


# 2. Methodoleg yr astudiaeth

Mae'r bennod hon yn nodi'r dull a ddefnyddiwyd i ymgymryd â'r astudiaeth ac yn trafod y materion a gododd ochr yn ochr â'r newidiadau a gyflwynwyd wrth ymgymryd â'r astudiaeth.

**Methodoleg**

Fel yr amlygir isod, sefydlodd tîm yr astudiaeth raglen waith pum cam. Yn fyr, roedd y fethodoleg yn cynnwys dull cymysg, gan gynnwys adolygiad pen desg o fesurau olrhain graddedigion VET mewn gwledydd Ewropeaidd a gwaith maes gyda chynrychiolwyr o wledydd astudiaethau achos dethol.

Ffigur 1: Rhaglen waith pum cam tîm yr astudiaeth.




Roedd y dull gweithredu, a gyflawnwyd rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2021, yn cynnwys yr elfennau gwaith canlynol:

- Cam cychwynnol, a fireiniodd y dull gweithredu methodolegol a chynllun y prosiect.
- Adolygiad o dystiolaeth eilaidd, a ymchwiliodd systemau olrhain graddedigion VET yn yr UE cyn tynnu cymariaethau â'r mesurau a fabwysiadwyd yng Nghymru.
- Datblygu dealltwriaeth o systemau olrhain graddedigion mwy systematig sydd wedi'u hymwreiddio i lywio'r sampl terfynol o wledydd i'w hadolygu.
- Datblygu hysbysiadau preifatrwydd i esbonio'r prosiect a sut byddai'r data a gasglwyd yn cael ei storio a'i ddefnyddio wrth adrodd.

- Paratoi canllawiau trafod ansoddol ar gyfer cyfweld â chynrychiolwyr o sefydliadau a gwledydd eraill.
- Addasu'r dull gweithredu i ganiatáu ymgynghori ar-lein ac i'r prosiect aros ar drac gyda'r amserlen wreiddiol.
- Cynnal cyfweliadau gyda:
  - 11 cynrychiolydd o bedwar sefydliad yn ystod ymweliad ag Iwerddon
  - Pum cynrychiolydd o dri sefydliad yn yr Iseldiroedd
  - Pedwar cynrychiolydd o dri sefydliad yn Awstria
  - Tri chynrychiolydd o ddau sefydliad yn Sbaen
  - Dau gynrychiolydd o ddau sefydliad yn yr Eidal
  - Dau gynrychiolydd o un sefydliad yng Nghroatia
  - Un cynrychiolydd o Wlad Groeg
  - Un cynrychiolydd o'r Ffindir
  - Un cynrychiolydd o Slofenia
- Mynychu cyfarfod o Rwydwaith EQAVET a'r Rhwydwaith Ansawdd Cenedlaethol gyda 41 o gynrychiolwyr o'r Ffindir, Gwlad Groeg, Slofenia a Chroatia.
- Trefnu a hwyluso pedwar cyfarfod rhanbarthol gyda rhanddeiliaid allweddol i nodi sut maent yn casglu ac yn defnyddio data a thrafod sut gellir dehongli canfyddiadau'r ymchwil a'u cymhwyso er mwyn gwella systemau, casglu data ac olrhain graddedigion yng Nghymru.
- Cynnal a hwyluso digwyddiad lledaenu gyda rhanddeiliaid o Gymru.
- Dadansoddi'r brif dystiolaeth a'r dystiolaeth eilaidd a pharatoi adroddiad terfynol.

## Cyfyngiadau'r ymchwil

Mae rhai materion methodolegol sy'n haeddu ystyriaeth wrth fyfyrio am ganfyddiadau'r astudiaeth hon. Yn gyffredin â llawer o brosiectau ymchwil, tarfwyd yn sylweddol ar y rhaglen waith fwriadedig ar gyfer yr astudiaeth EQAVET hon gan effaith y pandemig coronafeirws, ac yn benodol y cyfyngiadau o ran teithio ac ymweliadau wyneb yn wyneb. Digwyddodd cam gwaith maes y rhaglen waith ar adeg pan oedd pobl a sefydliadau ar draws Ewrop a'r byd yn delio â'r her o gydbwyso gwaith a chyfrifoldebau gofalu, cynllunio wrth gefn, a'r ymdrech emosiynol o oroesi'r argyfwng. Yn dilyn yr ymweliad astudiaeth achos cyntaf i Iwerddon ym mis Rhagfyr 2019, cafodd ymweliadau eu canslo gan dîm yr astudiaeth a bu iddynt addasu'r dull gweithredu i gynnwys cyfweliadau fideo ar-lein a thrafodaethau grŵp gyda chynrychiolwyr ar draws Cymru ac Ewrop.

At hynny, o ganlyniad i'r adborth a dderbyniwyd gan gynrychiolwyr o'r sampl gwreiddiol o chwe gwlad a newidiadau i'r rhaglen waith wreiddiol, penderfynodd tîm yr astudiaeth archwilio mesurau olrhain graddedigion VET mewn tair gwlad bellach. Cynhaliwyd ymchwil felly ar y gwaith olrhain graddedigion VET sydd ar waith yn y Ffindir, Croatia a Slofenia.

# 3. Y cyd-destun strategol

Mae'r bennod hon yn nodi'r cyd-destun polisi a strategol ar gyfer olrhain graddedigion VET yn Ewrop cyn edrych ar ddatblygiadau diweddar yng Nghymru.

**Polisi ac ymchwil olrhain graddedigion VET yr UE**

Mae olrhain graddedigion ym maes VET wedi dod yn flaenoriaeth bolisi yn yr Undeb Ewropeaidd (UE) yn y blynyddoedd diwethaf. Mae *The Riga Conclusions on Vocational Education and Training* (2015)[4] yn amlygu camau sefydlu a chymhwyso dolenni gwybodaeth ac adborth parhaus ym maes VET. Fel yr amlygwyd eisoes, cyfeirir at ddatblygiad olrhain graddedigion ym maes VET yn adroddiad *A New Skills Agenda for Europe (2016)*[5]*,* yn ogystal ag yn adroddiad *Mapping of VET graduate tracking measures in EU Member States* (2017)[6]. Mae'r adroddiadau hyn yn dangos pwysigrwydd a rôl gynyddol olrhain graddedigion ym mholisi'r UE ac yn pwysleisio pwysigrwydd gwybodaeth o ansawdd uchel ar lwybrau gyrfaol graddedigion mewn ymdrech i gynyddu cyflogadwyedd a chynhyrchiant drwy ddarparu gwybodaeth, sgiliau a chymwyseddau priodol.

Mae'r brif dystiolaeth a'r dystiolaeth eilaidd a goladwyd yn rhan o'r astudiaeth hon yn awgrymu bod y pwyslais ar lefel bolisi wedi arwain at gynnydd yn y gweithgarwch ymchwil yn y cylch gwaith hwn yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Digwyddodd rhywfaint o'r ymchwil hon cyn neu ar yr un pryd â'n hastudiaeth ac mae wedi cyfoethogi ein canfyddiadau. Sefydlwyd y prosiect *OnTrack*,[7] er enghraifft, i ddatblygu system olrhain ar gyfer graddedigion VET o ysgolion ac athrofâu VET cychwynnol. Arweiniodd Argymhelliad y Cyngor ar olrhain graddedigion hefyd at Arolwg Peilot Graddedigion Ewro, a lansiwyd yn 2018[8]. Roedd astudiaeth y *Mapping the state of graduate tracking policies and practices in the EU Member States and EEA countries* (2020)[9] hefyd yn gweithredu fel dadansoddiad gwaelodlin drwy ddatblygu meini prawf i fesur i ba raddau roedd Aelod-wladwriaethau a gwledydd yr AEE yn gweithredu Argymhellion y Cyngor.

---

[4] The Riga Conclusions (2015) Y Comisiwn Ewropeaidd. Ar gael yn: https://www.refernet.de/dokumente/pdf/2015-riga-conclusions_en.pdf (Cyrchwyd 9 Tachwedd 2020).
[5] Soldi, R. et al. (2016) A New Skills Agenda for Europe, yr Undeb Ewropeaidd.
[6] ICF Consulting (2017) 'Mapping of VET graduate tracking measures in EU Member States', Cyfarwyddiaeth Gyffredinol Cyflogaeth, Materion Cymdeithasol a Chynhwysiant, Y Comisiwn Ewropeaidd.
[7] OnTrack (2019) Prifysgol Dechnegol Košice. Ar gael yn: http://ontrack-project.eu/images/articles/ON_TRACK_IO1_CONTEXT_STUDY_OF_TRACKING_SYSTEMS_AND_MEASURES.pdf (Cyrchwyd 22 Hydref 2020).
[8] Gwefan Euro Graduate. Ar gael yn: https://www.eurograduate.eu (Cyrchwyd 9 Tachwedd 2020).
[9] ICF Consulting (2020) 'Mapping the state of graduate tracking policies and practices in the EU Member States and EEA countries', Y Gyfarwyddiaeth Gyffredinol dros Gyflogaeth, Ieuenctid, Chwaraeon a Diwylliant, Y Comisiwn Ewropeaidd. Ar gael yn: https://op.europa.eu/en/publication-detail/-/publication/93231582-a66c-11ea-bb7a-01aa75ed71a1/language-en (Cyrchwyd 9 Tachwedd 2020).

At hynny, sefydlwyd Grŵp Arbenigwyr y Comisiwn Ewropeaidd ar Olrhain Graddedigion (2018-2020)[10] i ddarparu fforwm ar gyfer cydweithredu a dysgu dwy ffordd am olrhain graddedigion. Yn ddiweddar, cyhoeddodd y gweithgor hwn ei argymhellion ar egwyddorion a safonau mecanwaith olrhain graddedigion Ewropeaidd. Mae'r safonau'n darparu canllawiau ymarferol i'r rhai hynny sy'n ceisio dylunio neu wella systemau olrhain. Yn ôl yr adroddiad, mae'r safonau hyn wedi'u seilio ar synthesis o arfer da, gwybodaeth gyfoes a syniadau sy'n dod i'r amlwg mewn perthynas ag olrhain. Mae'r ddogfen yn nodi y dylai systemau olrhain: (1) cyfrannu at amcanion cytunedig y system VET; (2) ceisio trafod yr holl raglenni VET cychwynnol a pharhaus; (3) ceisio darparu data o ansawdd am y boblogaeth raddedigion gyfan; (4) galluogi dadansoddi cymharol rhwng is-grwpiau o ddysgwyr; (5) defnyddio grwpiau cymharu; (6) bod wedi'u seilio ar bwyntiau mesur niferus er mwyn creu dadansoddiad hydredol; (7) diffinio ansawdd dymunol yr wybodaeth olrhain a defnyddio sicrwydd ansawdd i gefnogi'r system olrhain graddedigion; (8) sicrhau bod gwybodaeth o systemau olrhain graddedigion yn hygyrch ar ffurf sy'n ateb anghenion cytunedig rhanddeiliaid a phartneriaid cymdeithasol; (9) atgyfnerthu partneriaethau trawsffiniol drwy gynnwys graddedigion sydd wedi symud i wlad arall ar ôl cwblhau eu rhaglen; a (10) cyfrannu at gydweithredu ar lefel UE mewn VET[11].

## Olrhain graddedigion VET yng Nghymru

Dros y blynyddoedd, bu dull gweithredu cyson at fesur cynnydd a chyrchfannau dysgwyr a graddedigion ar draws yr amrywiol sefydliadau addysgol yng Nghymru. Roedd y trefniadau ar gyfer mesur perfformiad mewn chweched dosbarthiadau ysgolion ac mewn colegau AB ar wahân yn llwyr i'r dull gweithredu a ddefnyddiwyd mewn sefydliadau addysg uwch (SAU). Cynhyrchwyd y dulliau gweithredu ar gyfer chweched dosbarthiadau ysgolion  a cholegau AB o wahanol systemau casglu data gan ddefnyddio gwahanol fethodolegau dadansoddi. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd cymharu deilliannau mewn ffordd ystyrlon ar draws lleoliadau dysgu. Mae'r anghysondeb hwn wedi'i nodi fel gwendid mewn amrywiol adolygiadau o addysg yng Nghymru, gan gynnwys adolygiad Robert Hill[12], a'r Adolygiad o Gymwysterau i bobl ifanc 14 i 19 oed[13].

---

[10] Grŵp Arbenigol y Comisiwn ar olrhain graddedigion (2018) Y Comisiwn Ewropeaidd. Ar gael yn: https://op.europa.eu/en/publication-detail/-/publication/c5669b4b-6adb-11eb-aeb5-01aa75ed71a1/language-en/format-PDF/source-216136581 (Cyrchwyd 9 Tachwedd 2020).

[11] Grŵp Arbenigol ar Olrhain Graddedigion (2020) Yr Undeb Ewropeaidd. Ar gael yn: https://ec.europa.eu/education/sites/default/files/document-library-docs/conclusions-graduate-tracking-expert-group-vet-graduate-tracking-annex-4.pdf (Cyrchwyd 2 Chwefror 2021).

[12] Darparu gwasanaethau addysg yng Nghymru yn y dyfodol (2013) Llywodraeth Cymru. Ar gael yn: https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2018-01/130618-delivery-of-education-report-cy.pdf (Cyrchwyd 9 Tachwedd 2020).

[13] Adolygiad o gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru (2012) Llywodraeth Cymru. Ar gael yn: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-02/adolygiad-o-gymwysterau-ar-gyfer-pobl-ifanc-14-i-19-oed-yng-nghymru-adroddiad-terfynol-ac-argymhellion.pdf (Cyrchwyd 9 Tachwedd 2020).

Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio o amgylch anghysondebau o'r fath drwy geisio cyfuno'r data a gasglwyd ar wahân gan ysgolion, AB ac AU ac, i ryw raddau, wedi helpu'r sector i ddeall cynnydd dysgwyr drwy wahanol gyfnodau o'u haddysg a'u hyfforddiant. Gyda'r pwyslais cynyddol ar fanteision data o'r fath, archwiliodd Llywodraeth Cymru ffyrdd o fynd i'r afael â'r gwahaniaeth drwy ymgynghori ynghylch set newydd o fesurau perfformiad cyson ar gyfer chweched dosbarthiadau ysgolion a cholegau AB. Datblygodd Llywodraeth Cymru set o fesurau perfformiad ar gyfer colegau AB a chweched dosbarthiadau ysgolion yn 2018, sy'n darparu darlun mwy cyflawn o ddeilliannau dysgwyr yn y sector ôl-16.

Cyn hyn, cyhoeddwyd ffigyrau ar ddeilliannau dysgwyr yn y sectorau Addysg Bellach (AB), Dysgu Seiliedig ar Waith (DSW) a Dysgu Oedolion yn y Gymuned (DOG) yn flynyddol fel Datganiad Ystadegol Cyntaf (DYC). Dadansoddwyd yr ystadegau hyn yn ôl lefel astudio (gan gynnwys VET), math o nod dysgu, oedran y dysgwr, sector/maes pwnc, math o gymhwyster a math o ddarpariaeth, ac roeddent yn deillio o Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR).

Roedd mesurau deilliannau ar gyfer AB, DOG a Hyfforddeiaethau[14] wedi'u seilio ar gyfraddau cwblhau, cyrhaeddiad a llwyddiant. Ar gyfer prentisiaethau, roedd deilliannau wedi'u seilio ar lwyddiant y fframwaith. Roedd yn golygu cyfrifo nifer y rhaglenni dysgu lle roedd y fframwaith cyfan wedi'i gyflawni, wedi'i rhannu wrth nifer y rhaglenni dysgu a derfynwyd.

Dim ond ar gyfer Hyfforddeiaethau Ymgysylltu Lefel 2 EQF yn y cyfnod o bedair wythnos yn dilyn diwedd y rhaglen roedd data cyrchfan ar gael. Mae'r mesurau perfformiad newydd, a ddisodlodd y trefniadau blaenorol, yn rhychwantu cyflawniad dysgwyr, gwerth ychwanegol a chyrchfannau dysgwyr. Datblygwyd y data cyrchfannau ar gyfer y mesurau perfformiad newydd gan ddefnyddio astudiaeth Llywodraeth Cymru[15] i ddeall yn well y deilliannau cyffredinol i ddysgwyr ac effeithiolrwydd polisïau a mentrau cwricwlwm. Prif nodau'r astudiaeth hon oedd:

- Cynnig barn amgen am addysg Cymru, sef un a seiliwyd ar lwybr dysgwr drwy addysg, y cymwysterau maent yn eu cyflawni ar hyd y ffordd, a'r camau i gyflogaeth yn y pen draw;
- Gwerthuso effeithiolrwydd polisïau'n gysylltiedig â system addysg Cymru; a
- Monitro deilliannau poblogaeth amrywiol Cymru drwy'r system addysg ac ymchwilio a oes unrhyw rwystrau'n bodoli.

[14] Rhaglen ddysgu sy'n rhoi'r sgiliau sydd eu hangen ar bobl ifanc 16-18 oed yw Hyfforddeiaeth, er mwyn iddynt gael swydd neu symud i ddysgu pellach neu brentisiaeth yn y dyfodol.
[15] Mesurau Perfformiad Cyson (2020) Llywodraeth Cymru. Ar gael yn: https://hwb.gov.wales/api/storage/db3f5951-804c-44ac-b0ce-708e6ef2131e/Mesur%20Cyrchfannau%20-%20Nodiadau%20Esboniadol.pdf?preview=true (Cyrchwyd 9 Tachwedd 2020).

Rhannwyd y gwaith cychwynnol yn ddau ddarn, sef y Set Ddata Addysg wedi'i Chyfateb, a'r Astudiaeth Deilliannau Addysg Hydredol.

Casglwyd data gan ysgolion, AB ac AU ar wahân. Er mwyn deall dilyniant dysgwyr drwy wahanol gamau o addysg a hyfforddiant, roedd angen cysylltu'r data hwn. Yn absenoldeb set ddata gydlynus unigol, trefnodd Llywodraeth Cymru i gontractiwr trydydd parti gyfateb cofnodion dysgwyr yn y setiau data addysg lluosog gan ddefnyddio marcwyr adnabod dysgwyr unigryw. Mae'r set ddata hon yn galluogi Llywodraeth Cymru i ystyried dysgwyr 16-18 oed gyda nodweddion arbennig (naill ai rhai demograffig neu academaidd) a'u dilyn i addysg a hyfforddiant ôl-orfodol.

Yn rhan o'r gwaith hwn, cytunodd Llywodraeth Cymru i gymryd rhan yn rhaglen Llywodraeth y DU i gysylltu data ar raddfa fawr, rhaglen o'r enw astudiaeth Deilliannau Addysg Hydredol (LEO)[16]. Mae hyn yn cyfateb cofnodion dysgwyr i ddata'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) a Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM) ar gyflogaeth, enillion a budd-daliadau, gan ddarparu darlun mwy cynhwysfawr o gyrchfannau dysgwyr nag sydd wedi bod yn bosibl erioed o'r blaen. Er mwyn cael y darlun cyfan o gyrchfannau dysgwyr, gan gynnwys addysg yn ogystal â chyflogaeth, sefydlodd Llywodraeth Cymru set ddata wedi'i chyfateb sy'n cael ei diweddaru'n flynyddol sy'n tynnu cofnodion ar gyfer ysgolion, AB, DSW ac AU at ei gilydd. Caiff y broses hon ei chwblhau pan fydd Llywodraeth Cymru yn cyfateb data addysg i gofnodion treth a budd-daliadau gan DWP a CThEM, gan alluogi dadansoddiad eang o ddeilliannau dysgwyr pan fyddant yn gadael addysg. Defnyddiodd Llywodraeth Cymru gyfuniad o ddata LEO ac o'r set ddata addysg wedi'i chyfateb i gyhoeddi ei dadansoddiad. Cyhoeddwyd y cyntaf o'r mesurau perfformiad cyson hyn ar gyfer carfan dysgwyr ôl-16 2015/16 ym mis Medi 2018[17]. Cyhoeddwyd yr ail adroddiad ar gyfer carfan dysgwyr 2016/17 ym mis Ebrill 2020[18].

Am fod yr adroddiadau hyn yn cael eu cyhoeddi yn ôl amserlen wahanol i'r mesurau eraill (i ganiatáu amser i ddysgwyr symud ymlaen i gyrchfan barhaus ac i'w data gael ei gasglu, ei gyfateb a'i ddadansoddi), caiff yr adroddiad ar garfan 2019/20 ei gyhoeddi ym mis Medi 2022. Ar yr adeg hon, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried sut mae'r tarfu i ddysgu a welwyd gan garfan 2019/20 wedi cael effaith ar y mesurau cyrchfan. Fel arfer mae'r mesurau perfformiad yn cael eu cyhoeddi fel adroddiad unigol i bob coleg.

[16] Gwefan Llywodraeth y DU. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/statistics/graduate-outcomes-for-all-subjects-by-university (Cyrchwyd 9 Tachwedd 2020).
[17] Mesurau perfformiad cyson ar gyfer dysgu ôl-16 (cyrchfannau dysgwyr): mis Awst 2015 i fis Gorffennaf (2018) Llywodraeth Cymru. Ar gael yn: https://llyw.cymru/mesurau-perfformiad-cyson-ar-gyfer-dysgu-ol-16-cyrchfannau-dysgwyr-awst-2015-i-gorffennaf-2016 (Cyrchwyd 9 Tachwedd 2020).
[18] Mesurau perfformiad cyson ar gyfer dysgu ôl-16 (cyrchfannau dysgwyr): mis Awst 2016 i fis Gorffennaf (2020) Llywodraeth Cymru. Ar gael yn Mesurau perfformiad cyson ar gyfer dysgu ôl-16 (cyrchfannau dysgwyr): Awst 2016 i Orffennaf 2017 | LLYW.CYMRU (Cyrchwyd 9 Tachwedd 2020).

Mae'n galonogol bod Llywodraeth Cymru wedi parhau i ddatblygu ei dull gweithredu a'i methodoleg, a bod cynnydd ar droed i ymestyn ystod y data a ddarperir e.e. i gynnwys mwy o wybodaeth am y math o gyflogaeth, sectorau, oriau a weithiwyd a chysylltiadau i gyrsiau astudio. Mae'n werth nodi mai fel rhai arbrofol yr ystyrir yr ystadegau a geir o ganlyniad, tra bod y mesurau cyrchfan yn parhau i gael eu datblygu. Mae gan y gwaith hwn broffil cynyddol yng ngoleuni diwygiadau arfaethedig y llywodraeth i addysg a hyfforddiant ôl-orfodol a allai arwain at ailstrwythuro'r system ôl-16. Mae'r diwygiad arfaethedig hwn yn seiliedig ar Adolygiad Hazelkorn, *Tuag at 2030*[19], a nododd nad yw'r swm sylweddol o ddata sy'n cael ei gasglu am ddysgwyr yn cael ei ystyried mewn modd cydlynol i asesu'r deilliannau hirdymor i ddysgwyr. Yn yr adroddiad, roedd argymhelliad i "wella'r broses o gasglu a dadansoddi data er mwyn ategu prosesau gwneud penderfyniadau, atebolrwydd, a dealltwriaeth y cyhoedd o gyfraniad addysg tuag at gymdeithas a'r economi." Er y cydnabuwyd bod angen data ôl-16, mae'r ffaith bod y data cyfoes hwn wedi'i gyfyngu i raglen academaidd yn awgrymu bod hwn yn faes y dylid ei archwilio ymhellach.

## Angen parhaus am dystiolaeth mewn byd heriol sy'n prysur newid

Mae gallu casglu, dadansoddi a defnyddio data yn sgil olrhain graddedigion yn bwysig er mwyn helpu myfyrwyr i wneud penderfyniadau gwybodus am eu haddysg a'u hyfforddiant pellach. Mae argaeledd tystiolaeth hefyd yn gallu cefnogi gwaith datblygu polisi a chynllunio rhaglenni addysg a hyfforddiant. Mae hyn yn cael ei gadarnhau gan ymchwil gynharaf Llywodraeth Cymru[20] a gynhaliwyd gan gwmni ymchwil OB3 Research gyda chynrychiolwyr AB yng Nghymru. Yn 2012, cyfeiriodd yr ymchwil at bedair her y mae data cyrchfan yn gallu helpu mynd i'r afael â nhw: (1) Yr angen i sicrhau perthnasedd ac effeithiolrwydd darpariaeth ddysgu; (2) Yr angen i baratoi dysgwyr i wneud dewisiadau gwybodus; (3) Yr angen i wella perfformiad darparwyr dysgu; a (4) Yr angen i hysbysu rhanddeiliaid am ymddygiad ac anghenion pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

Er bod tystiolaeth gadarn i awgrymu bod cryn dipyn o ddiddordeb mewn casglu a defnyddio data graddedigion VET o ansawdd uchel yng Nghymru, mae digwyddiadau y misoedd diwethaf wedi rhoi gwerth uwch ar dystiolaeth o'r fath. Gyda'r tebygolrwydd bydd y pandemig coronafeirws yn cael effaith barhaus sylweddol ar fyfyrwyr a graddedigion, mae'r angen am ddata cymharol, amserol o ansawdd uchel ar ddeilliannau graddedigion yn y farchnad lafur, yn fwy nag erioed. Mae'r pandemig yn peri her economaidd ddifrifol, gyda chrebachu yn yr economi fyd-eang yn digwydd ar raddfa lawer cyflymach na'r disgwyl, gan fwrw pob sector a llawer o gyflogwyr mwyaf y byd. Mae effaith y

[19] Hazelkorn, E (2016) Tuag at 2030: Fframwaith ar gyfer datblygu system addysg ôl-orfodol o'r radd flaenaf i Gymru. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.
[20] Old Bell 3 Cyf. (2012) Scoping study into the use of further education destination data. (Saesneg yn unig) Caerffili: Llywodraeth Cymru. [121102scopingfedestinationsdataen.pdf (ioe.ac.uk)]

pandemig yn debygol o effeithio ar benderfyniadau pobl i ymrestru mewn addysg bellach a'u dewisiadau o ran maes a phrifysgol.

Nid y pandemig coronafeirws yw'r unig her sylweddol mae Cymru yn ei hwynebu. Er bod yr astudiaeth hon yn pwyso'n drwm ar y gwaith a wneir ar olrhain graddedigion VET yn Ewrop, mae'n werth cofio bod y DU wedi gadael marchnad sengl ac undeb tollau yr UE ran o'r ffordd drwy'r astudiaeth ym mis Ionawr 2021. Mae economi'r DU yn wynebu nifer o heriau critigol y gallai dull gweithredu ar sail tystiolaeth i olrhain graddedigion eu cefnogi. Ymhlith heriau o'r fath mae camau datblygiadol mewn technoleg a'r ffaith bod natur gwaith yn newid, poblogaeth sy'n heneiddio sy'n cynyddu'r angen i oedolion ailsgilio yn ystod eu bywydau gwaith estynedig, bwlch cynhyrchiant hirsefydlog yn gymharol i economïau blaengar eraill, a symudedd cymdeithasol isel yn ôl safonau rhyngwladol[21].

Bydd y gallu i gasglu a dehongli data graddedigion VET a'i ddefnyddio i wneud penderfyniadau gwybodus o fudd i ddysgwyr VET a'r sector, ac yn darparu budd cyhoeddus i gymdeithas a'r economi. Mae ColegauCymru yn cydnabod pwysigrwydd colegau AB, fel sefydliadol angor yn y gymuned, o ran helpu i ymateb i'r heriau hyn. Aeth y sefydliad ati felly i ddeall yn llawn y mesur olrhain graddedigion VET sydd yn ei le yng Nghymru a dysgu o brofiadau gwledydd Ewrop.

[21] Kantar Public and Learning Work Institute, 'Decisions of adult learners,' Yr Adran Addysg, Medi 2018, https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/742108/DfE_Decisions_of_adult_learners.pdf (Cyrchwyd 22 Hydref 2020).

# 4. Mesurau olrhain VET mewn gwledydd Ewropeaidd

Mae'r bennod hon yn adolygu'r systemau olrhain graddedigion mewn naw gwlad Ewropeaidd. Yna mae'n myfyrio am gryfderau a chyfyngiadau'r dulliau gweithredu gwahanol.

## 4.1 Trosolwg

Helpodd yr adolygiad cychwynnol o'r dystiolaeth dîm yr astudiaeth i nodi'r defnydd o systemau a mesurau olrhain graddedigion VET sydd wedi'u datblygu'n dda mewn gwledydd a rhanbarthau Ewropeaidd. O ystyried bod gan wahanol dermau wahanol ystyron, aeth tîm yr astudiaeth ati i sicrhau eglurder a chysondeb yn y defnydd o derminoleg. Defnyddiant y tri chategori a nodwyd yn adroddiad *Mapping of VET graduate tracking measures in EU Member States* (2017)[22] i grynhoi'r mesurau a fabwysiadwyd yng ngwledydd yr astudiaethau achos. Y tri chategori oedd:

- Ansystemataidd: Y gwledydd heb fesurau rheolaidd ar gyfer olrhain graddedigion VET.
- Rhannol systemataidd: Mae'r gwledydd lle mae systemau olrhain graddedigion VET rheolaidd, ond nad ydynt o bosibl yn rhychwantu pob rhanbarth yn y wlad, yn cymryd mesuriadau o bwyntiau mesur niferus neu'n cynnwys yr holl ddangosyddion allweddol am statws cyflogaeth, math o gontract cyflogaeth (parhaol/dros dro, rhan-amser/amser llawn), enillion, a chyfranogiad mewn AB a hyfforddiant.
- Systemataidd ac wedi ymwreiddio: Mae'r gwledydd lle mae systemau olrhain graddedigion VET rheolaidd sy'n rhychwantu pob rhanbarth, yn cynnwys pedwar dangosydd cyflogaeth a dysgu allweddol, ac mae iddynt fesurau sy'n cymryd pwyntiau mesur niferus.

Yn ôl adroddiad 2017 y Comisiwn Ewropeaidd, dim ond ychydig o wledydd Ewrop sydd wedi sefydlu systemau olrhain graddedigion ar lefel genedlaethol neu ranbarthol. At hynny, dim ond ychydig o fesurau ar gyfer olrhain graddedigion ar lefel sefydliad VET a nodwyd, gyda'r rhain yn aml yn fesurau ad hoc ac ansystemataidd. Mae Tabl 1 isod yn darparu trosolwg o'r mesurau a'r dulliau gweithredu a ganfuwyd gennym yn y naw gwlad a adolygwyd yn rhan o'r astudiaeth hon.

[22] ICF Consulting (2017) 'Mapping of VET graduate tracking measures in EU Member States', Y Gyfarwyddiaeth Gyffredinol Cyflogaeth, Materion Cymdeithasol a Chynhwysiant, Y Comisiwn Ewropeaidd.

Tabl 1: Trosolwg o'r mesurau a'r dulliau gweithredu

| Gwlad | Mesur | Dulliau gweithredu |
|---|---|---|
| 1. Yr Iseldiroedd | Systemataidd cenedlaethol | Dadansoddiad o'r data gweinyddol ac arolwg cenedlaethol |
| 2. Iwerddon | Systemataidd cenedlaethol | Dadansoddiad o ddata gweinyddol |
| 3. Sbaen | Systemataidd cenedlaethol | Caiff dadansoddiad o ddata gweinyddol ei ategu gan fesurau olrhain rheolaidd o 15 i 17 o ranbarthau |
| 4. Awstria | Systemataidd cenedlaethol | Dadansoddiad o ddata gweinyddol |
| 5. Yr Eidal | Rhannol systemataidd | Dadansoddiad o ddata gweinyddol ar gyfer graddedigion addysg a hyfforddiant cychwynnol (IVET) |
| 6. Gwlad Groeg | Ansystemataidd | Arolygon cyrchfannau |
| 7. Y Ffindir | Systemataidd | Dadansoddiad o ddata gweinyddol a data arolwg sy'n bodoli |
| 8. Croatia | Ansystemataidd | Arolygon cyrchfannau |
| 9. Slofenia | Ansystemataidd | Arolygon cyrchfannau |

Fel yr amlygwyd yn y tabl uchod, roedd y chwe gwlad yn yr astudiaeth achos yn y sampl gwreiddiol wedi mabwysiadu o leiaf ryw agwedd ar fesurau systemataidd neu rannol systemataidd i olrhain graddedigion VET. Mae'n bwysig cydnabod bod datblygiadau wedi bod yn yr holl wledydd y cynhaliom ymchwil ynddynt ers cyhoeddi'r adroddiad hwn. Mae cynlluniau peilot i ymchwilio'r mesurau olrhain gorau yn y cyd-destun cenedlaethol wedi'u datblygu yn y gwledydd hynny y nodwyd eu bod yn ansystemataidd yn adroddiad 2017 y Comisiwn Ewropeaidd.

Lle roedd yn bosibl, ceisiodd ymchwil ColegauCymru nodi dulliau gweithredu ar lefel genedlaethol (gwlad), ranbarthol (awdurdodau lleol neu wladwriaethau) a lleol (darparwr). Mae'r mesurau a'r dulliau gweithredu, yn ogystal â ffactorau fel y system addysg a diwylliant sy'n chwarae rôl yn siapio'r rhain, wedi'u hamlygu isod. Edrychon ni'n fanwl ar y chwe gwlad yn yr astudiaethau achos gwreiddiol cyn myfyrio am ddatblygiadau mewn tair gwlad ychwanegol (y Ffindir, Croatia a Slofenia). Bu

amrywiol brosiectau drwy gyllid Erasmus+ yn edrych ar fesurau olrhain graddedigion VET yn Ewrop, gan gynnwys Tracktion[23] ac OnTrack[24], a darparodd y rhain sylfaen gref ar gyfer ein gwaith dadansoddi a'n canfyddiadau.

4.2 Yr Iseldiroedd

Mae dealltwriaeth o'r system addysg yn yr Iseldiroedd yn bwysig wrth archwilio'r mesurau olrhain graddedigion VET a fabwysiadwyd ar lefel genedlaethol a lefel darparwr. Mae adroddiad Cedefop[25] yn awgrymu bod oddeutu traean o fyfyrwyr yn dilyn rhaglenni cyn-alwedigaethol uwchradd is (VMBO), gyda bron hanner y rhain yn gysylltiedig â rhaglenni â gogwydd galwedigaethol. Mae myfyrwyr eraill yn dilyn y rhaglenni cyffredinol a gynigir gan ysgolion VMBO sy'n darparu'r prif lwybr at VET uwchradd uwch. Yn ogystal â'r rhaglenni cyn-VET uwchradd is, mae rhaglenni cyffredinol hefyd sy'n paratoi myfyrwyr ar gyfer addysg uwch. Mae'r rhain yn cynnwys addysg uwchradd is ac uwch (HAVO) ac addysg cyn-brifysgol (VWO). Mae adroddiad Cedefop yn awgrymu bod hyfforddiant ymarferol â gogwydd galwedigaethol ar gael hefyd ar gyfer dysgwyr nad ydynt yn gallu cael mynediad i addysg cyn-alwedigaethol.

Gall dysgwyr 16 oed neu'n uwch gael mynediad i dair rhaglen VET uwchradd uwch wahanol (MBO). Mae mynediad myfyrwyr yn dibynnu ar y diploma a enillir yn eu haddysg flaenorol, a gall unigolion symud ymlaen yn VET uwchradd uwch a chyrraedd y lefel uchaf sy'n rhoi mynediad i raglenni baglor broffesiynol uwch a gynigir gan brifysgolion gwyddorau cymhwysol. Mae'r rhaglenni VET uwchradd uwch yn rhychwantu pedwar sector, gan gynnwys sector gwyrdd/amaethyddiaeth, technoleg, economeg a gofal/llesiant, ac maent yn cael eu darparu drwy lwybrau seiliedig yn yr ysgol (BOL) a deuol (BBL). Yn ôl adroddiad Cedefop, yn y llwybr seiliedig yn yr ysgol, mae lleoliadau gwaith mewn cwmnïau'n rhoi cyfrif am 20% i 60% o amser astudio. Yn y llwybr deuol, mae myfyrwyr (prentisiaethau) yn cyfuno dysgu seiliedig ar waith (o leiaf 60% o'u hamser astudio) gydag addysgu seiliedig yn yr ysgol.

Mae'r dystiolaeth yn nodi bod yr Iseldiroedd wedi mabwysiadu mesurau olrhain graddedigion VET systemataidd sydd wedi'u hymwreiddio. Cadarnhawyd y farn hon gan gyfweleion a oedd yn gysylltiedig â'r broses ac esbonio bod y mesurau'n rhychwantu pob dangosydd allweddol ar statws cyflogaeth, math o gontract cyflogaeth, enillion, a chyfranogiad mewn addysg a hyfforddiant pellach.

---

[23] Astudiaeth Waelodlin(2018) Tracktion. Ar gael yn: https://tracktionerasmus.eu/wp-content/uploads/2020/11/TRACKTION_baseline_study.pdf (Cyrchwyd 12 Ionawr 2021).
[24] OnTrack (2019) Prifysgol Dechnegol Košice. Ar gael yn: http://ontrack-project.eu/images/articles/ON_TRACK_IO1_CONTEXT_STUDY_OF_TRACKING_SYSTEMS_AND_MEASURES.pdf (Cyrchwyd 22 Hydref 2020).
[25] Spotlight on VET: The Netherlands (2016) CEDEFOP. Ar gael yn: https://www.Cedefop.europa.eu/files/8090_en.pdf (Cyrchwyd 22 Hydref 2020).

Cadarnhawyd ganddynt hefyd bod y mesurau'n rhychwantu graddedigion IVET a graddedigion addysg a hyfforddiant parhaus (CVET) sy'n cymryd rhan mewn cyrsiau a ddarperir gan sefydliadau IVET (MBO). Mae'r mesurau systemataidd sydd yn eu lle yn yr Iseldiroedd yn cyfuno data arolygon a gweinyddol.

Trafododd cyfweleion sut y cymerir data o ystod o ffynonellau. Mae gan yr Iseldiroedd Gofrestrfa Addysg Sylfaenol a gedwir gan DUO, asiantaeth weithredol, sy'n rhan o'r Weinidogaeth. Mae'r gronfa ddata hon yn cynnwys gwybodaeth allweddol fel nodweddion personol y dysgwyr (enw, dyddiad geni, rhyw, cefndir ymfudo, cyfeiriad gartref), cefndir addysgol (ysgol, lleoliad, lefel a maes addysg, cwmni prentisiaeth) a chanlyniadau (sgôr prawf, cymwysterau) ar gyfer yr holl ddisgyblion a myfyrwyr sy'n cymryd rhan mewn darpariaeth addysg a gyllidir gan y llywodraeth[26]. Mae'r adborth yn awgrymu bod y gronfa ddata'n llunio data 'amser real' drwy gysylltu'r data gweinyddol o ysgolion/sefydliadau â'r gofrestrfa ganolog a gedwir gan DUO.

Er mwyn cael mewnwelediad pellach, mae ymchwilwyr yn gallu cyfuno data o'r gronfa ddata BRON (addysg sylfaenol) a gedwir gan yr Asiantaeth Addysg Weithredol a'r Gronfa Ddata Ystadegol Gymdeithasol (SSB) gyda gwybodaeth am gyfranogiad yn y farchnad lafur. Caiff y data hwn ei ryddhau bob blwyddyn ac mae'n caniatáu i ymchwilwyr godio unigolion er mwyn hwyluso cysylltiadau â chofrestrau eraill, gan gynnwys cofrestrfa'r boblogaeth, cofrestrfa cyflogeion, cofrestr o ysgolion a lleoliadau, cofrestr o ranbarthau dinesig, cofrestrau o feysydd a lefelau rhaglenni addysg, a chofrestrfa cwmnïau interniaethau.

Rydym yn deall bod y rhan fwyaf o ddata yn yr Iseldiroedd yn ddata agored, sy'n golygu ei fod ar gael i bawb. Soniodd cyfweleion fod cynrychiolwyr ysgolion, cwmnïau, prifysgolion ac asiantaethau ymchwil yn gallu cyrchu'r data at eu dibenion eu hunain. Er bod agwedd gadarnhaol at rannu data, nodwyd bod y ffaith nad oes un asiantaeth unigol yn gyfrifol am y maes gwaith hwn yn wendid. Rhybuddiodd ambell gyfwelai hefyd am beryglon dyblygu gwaith rhwng adrannau a sefydliadau. Dywedodd un cyfwelai, "Mae'r cofrestrfeydd yna a byddai llawer o sefydliadau'n defnyddio'r wybodaeth. Er enghraifft, yr arolygiaeth, cyngor y sefydliadau, y Gweinidogaethau, ac ati. Mae'r Weinidogaeth Lafur yn ystyried llafur ac yna'n ystyried addysg y llafur. Mae sefydliadau ymchwil sydd hefyd yn defnyddio'r data. Mae llawer o bobl yn defnyddio'r data ac mae hyn yn broblem gyda llawer o bobl yn gwneud yr un pethau... Mae gorlwythiad gwybodaeth."

---

[26] Adroddiad 'Report from the PLA on ICT-tools in Quality Assurance' (2019) Qavetahr. Ar gael yn: https://www.qavet.hr/en/news/report-from-the-pla-on-ict-tools-in-quality-assurance/ (Cyrchwyd 22 Hydref 2020).

Mae'r gallu i gyfuno gwahanol setiau data yn rhan o'r broses weinyddol yn cynnig mewnwelediad gwerthfawr yn ôl y rhai y cyfwelwyd â nhw. Roedd yn ddiddorol hefyd bod canlyniadau'r gwahanol arolygon yn cyfoethogi ymhellach sail y dystiolaeth. Er enghraifft, trafododd cyfweleion arolwg a gynhaliwyd ddwywaith y flwyddyn gan y sefydliad myfyrwyr VET cenedlaethol sy'n casglu adborth gan fyfyrwyr am eu bodlonrwydd gyda gwahanol agweddau ar addysg. Mae arolygon eraill, gan gynnwys arolwg o ymadawyr ysgol sy'n archwilio bodlonrwydd myfyrwyr a rôl addysg wrth baratoi unigolion am y farchnad lafur. Cynhelir yr arolwg hwn 18 mis ar ôl i fyfyrwyr adael AB. Roedd hefyd yn ddiddorol clywed bod myfyrwyr a mentoriaid yn y diwydiant yn ateb arolygon am eu profiadau ar ddiwedd rhaglen brentisiaeth. Caiff yr arolwg ei gynnal gan Gymdeithas Colegau VET a Sefydliadau Cyflogwyr . Cynhelir arolygon bodlonrwydd hefyd ar lefel darparwr gyda staff a myfyrwyr.

Cafodd yr adborth gan y rhai a oedd â chysylltiad agos â'r gwaith hwn ei ddogfennu mewn papur ar gyfer cyfarfod a gynhaliwyd yn Zagreb yn 2019[27]. Mae'r papur a'r cyfweliadau a gynhaliwyd yn rhan o'r astudiaeth hon yn dangos bod mabwysiadu dull gweithredu o'r fath ar lefel system wedi helpu i gael mewnwelediad ynghylch i ba raddau roedd y rhaglen astudio wedi paratoi alwmni ar gyfer y maes proffesiynol neu AB. Mae system o'r fath hefyd yn helpu i fonitro'r rhesymau dros y gyfradd ymadael a deall sut cafodd penderfyniadau dysgwyr eu dylanwadu gan eu rhaglen astudio a'r darparwr VET. Maent hefyd yn defnyddio'r data i ddeall a yw graddedigion VET wedi mynd i fyd cyflogaeth ac a ydynt yn gweithio yn yr un sector â'u rhaglen astudio. Ymddengys fod system yr Iseldiroedd yn galluogi canfod a yw'r rhaglen astudio wedi'i halinio'n ddigonol ag anghenion y farchnad lafur, anghenion cymdeithas a'r angen am AB.

Nododd Fframwaith Arolygu'r Iseldiroedd yr Arolygiaeth Addysg nifer o feysydd ansawdd a safonau ansawdd ar gyfer y sector VET. Gall adborth gan raddedigion VET ar y broses addysgol, systemau arholi a thystysgrifo ddarparu gwybodaeth werthfawr ar lefel sefydliadol ac addysgol. Mae hyn yn cynnwys lefel bodlonrwydd gyda'r cwricwlwm, strategaethau addysgu athrawon, gweinyddu arholiadau, diogelwch a'r amgylchedd dysgu yn y coleg VET. Yn ogystal, mae dadansoddi ar lefel addysgol a sefydliadol yn helpu colegau i gynnal cysylltiad gydag alwmni sy'n parhau'n gysylltiedig â'r rhaglen astudio ac sy'n gallu chwarae rôl ynddynt, drwy gynnig lleoliadau gwaith ac addysgu hybrid neu gyfleoedd i addysgu fel gwesteion. Mae'r data hefyd yn helpu colegau i gynnal cysylltiad gydag alwmni fel darpar gwsmeriaid addysg ac i gael mewnwelediad i anghenion alwmni i ailhyfforddi neu gael hyfforddiant pellach. Mae'n debyg bod darparwyr hefyd am sicrhau bod alwmni'n gallu

[27] Adroddiad 'Report from the PLA on ICT-tools in Quality Assurance' (2019) Qavetahr. Ar gael yn: https://www.qavet.hr/en/news/report-from-the-pla-on-ict-tools-in-quality-assurance/ (Cyrchwyd 22 Hydref 2020).

gweithredu fel llysgenhadon i raglen astudio neu goleg, sy'n cyd-fynd â delwedd y rhaglen astudio neu'r coleg.

O ystyried y safonau ansawdd sydd yn eu lle yn yr Iseldiroedd a'r rôl gynyddol bwysig mae data yn ei chwarae, nid yw'n syndod o bosibl bod colegau'n rhagweithiol o ran olrhain graddedigion VET. Mae ROC Midden Nederland (Canolfan Addysg Ranbarthol), sef y coleg mwyaf yng nghanol yr Iseldiroedd, yn cynnal arolwg blynyddol o raddedigion VET chwech i naw mis ar ôl gadael y coleg[28]. Amlygodd cynrychiolydd Coleg ALFA bwysigrwydd casglu tystiolaeth a thrafododd y pwyslais a roddir gan yr Arolygiaeth ar bwysigrwydd olrhain bodlonrwydd a llwyddiant dilynol graddedigion.

Mae'n ymddangos bod darparwyr VET wedi treialu gwahanol ddulliau gweithredu wrth olrhain graddedigion. Mae'n debyg bod nifer o ddarparwyr VET wedi cynnal darn o ymchwil drwy'r cwmni myfyrwyr Duo yn y gorffennol gydag adroddiadau'n cael eu cyhoeddi dwywaith y flwyddyn. Wedi sylweddoli na ddaeth dim byd diriaethol i'r amlwg ar ôl casglu'r data, datblygodd un sefydliad a oedd yn gysylltiedig â'r astudiaeth eu hymchwil eu hun, o'r enw'r 'Ex Monitor', ac anfonwyd holiaduron at fyfyrwyr wrth yr athrawon. Esboniodd cynrychiolydd y coleg, "Roedd yn ddull llwyddiannus iawn oherwydd eu bod yn adnabod y bobl a anfonodd yr arolygon atynt, a daeth yr holl ganlyniadau yn ôl ar lefel tîm. Gallai'r timau weld beth oedd hanes eu halwmni a'r hyn y gallent ei wneud am y cwricwlwm. Roedd y data'n ansoddol iawn ei natur. Roedd hyn yn dda iawn ond cymerodd ormod o amser, a bod yn onest." Ers hynny, mae'r coleg wedi dod yn gysylltiedig â'r prosiect Tracktion. Pwysleisiwyd pwysigrwydd dirnad yr wybodaeth berthnasol fel sefydliad: "Rydyn ni hefyd eisiau data ansoddol. Nid oes angen gormod o ddata meintiol arnon ni."

Mae hefyd yn werth amlygu bod y fframwaith cyfeirio EQAVET yn cael ei ddefnyddio i hyrwyddo tryloywder yn systemau sicrhau ansawdd yr Aelod-wladwriaethau Ewropeaidd. Mae un o'r elfennau yn y fframwaith cyfeirio EQAVET yn canolbwyntio ar ddata alwmni (ar lefel system) ac mae hyn wedi'i gynnwys yn Fframwaith Arolygu'r Arolygiaeth fel 'gobeithion cyflogaeth' a 'llwyddiant pellach'. Dywedodd un cyfwelai, "Dylai fod gennym drosolwg o leoliad terfynol ein myfyrwyr. Er enghraifft, mae ganddynt [y graddedigion] Ddiploma mewn TG, dylen nhw fod yn gweithio yn y sector TG. Dyma'r hyn rydym yn ei alw'n 'llwyddiant dilynol'. Mae dylanwad yr Arolygiaeth yn amlwg yn cael effaith ar olrhain graddedigion VET ar lefel darparwr.

Er gwaethaf datblygiad mesurau sydd wedi'u hymwreiddio ar lefel genedlaethol, mae rhywfaint o ansicrwydd o hyd ynghylch casglu a defnyddio data ar lefel darparwr. Rydym yn deall bod diffyg

[28] Corporate Information Central Netherlands Regional Education and Training Centre, ROC Midden Nederland. Ar gael yn: https://www.rocmn.nl/over-roc-midden-nederland/corporate-information-central-netherlands-regional-education-and-training (Accessed 22 October 2020).

eglurder am y dulliau gweithredu a ddefnyddir ar draws sefydliadau a'u bod bellach yn ceisio rhannu profiadau a dulliau gweithredu. Rydym hefyd yn deall bod rhai sefydliadau wedi gwneud mwy o gynnydd nag eraill ac mae'r adborth anecdotaidd yn awgrymu bod dulliau gweithredu'n amrywio o sefydliad i sefydliad. Mae'r colegau VET nad ydynt wedi'u cyllido gan y llywodraeth hefyd wedi mynegi'r dymuniad i fod yn fwy agored a dysgu wrth ei gilydd. Yn ogystal, nid yw'r holl golegau VET yn ymwybodol o'r data cenedlaethol a rhanbarthol sydd ar gael iddynt. Mae'r adborth yn awgrymu y dylid ystyried cynnwys colegau VET yn agosach yn yr arolwg tra'n cydnabod hefyd bod rhai colegau VET yn ei gwneud yn bolisi iddynt gynnal cysylltiad anffurfiol yn unig gyda'u rhwydwaith alwmni.

### 4.3 Iwerddon

Er bod y rhan fwyaf o VET yn digwydd yn sector y wladwriaeth yn Iwerddon, mae darparwyr preifat yn chwarae rôl bwysig. Hyd at 2016, roedd VET yn digwydd gan amlaf yn y sector addysg bellach a hyfforddiant (FET). Fodd bynnag, yn dilyn diwygio'r sector FET ac arolwg o'r system prentisiaethau, mae darparwyr AU bellach yn cynnig nifer gyfyngedig o gyrsiau prentisiaeth. Yn y sector FET, prif ddarparwyr VET yw'r byrddau addysg a hyfforddiant ôl-16 (ETBs). Yn nwylo SOLAS, Awdurdod Addysg a Hyfforddiant Iwerddon y mae'r cyfrifoldeb dros gyllid, cynllunio a chydlynu rhaglenni FET yn y byrddau addysg a hyfforddiant. Ymhlith y darparwyr statudol eraill mae BIM (hyfforddiant yn y sector bwyd môr) a Teagasc (hyfforddiant amaethyddol). Caiff y cyrff hyn eu cyllido'n gyhoeddus a chaiff rhai o'u rhaglenni eu cyd-gyllido gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF). Gallai hyfforddeion gynnwys ymadawyr ysgol, dysgwyr hŷn, pobl gyflogedig a phobl ddi-waith.

Fel yr amlygwyd yn adroddiad *Mapping of VET tracking measures in EU Member States* (2017), mae mesurau olrhain yn Iwerddon yn systemataidd ac wedi'u hymwreiddio ac yn rhychwantu pob dangosydd o ran statws cyflogaeth, math o gontract cyflogaeth, enillion a chyfranogiad mewn addysg bellach a hyfforddiant[29]. Roedd ymweliad ein tîm ymchwil i Iwerddon yn gyfle i ddeall ymhellach y mesurau a oedd wedi'u datblygu a rôl y sefydliadau cysylltiedig. Disgrifiodd cynrychiolwyr o SOLAS, Quality and Qualifications Ireland, ATI a City of Dublin Education and Training Board sut mae'r defnydd o ffynonellau data sy'n bodoli eisoes yn hanfodol wrth ymchwilio'r cyflenwad sgiliau yn Iwerddon a'r galw amdanynt. Yn debyg i'r sefyllfa yn yr Iseldiroedd, mae'r gallu i gysylltu amrywiol ffynonellau data yn rhan annatod o'r broses ac mae'n debyg mai'r sbardun i'r dull gweithredu oedd yr angen i adrodd data i ESF.

---

[29] ICF Consulting (3) 'Mapping of VET graduate tracking measures in EU Member States', Y Gyfarwyddiaeth Gyffredinol Cyflogaeth, Materion Cymdeithasol a Chynhwysiant, Y Comisiwn Ewropeaidd.

Mae SOLAS, drwy nawdd Llywodraeth Iwerddon, yn chwarae rôl bwysig yn rhan o'r dull gweithredu systemataidd hwn. Mae Uned Sgiliau ac Ymchwil i'r Farchnad Lafur SOLAS (SLMRU) yn darparu adnodd casglu data, dadansoddi ac ymchwil i nodi anghenion sgiliau a chefnogi gwaith y Cyngor Sgiliau Cenedlaethol[30]. Mae'r gwaith dadansoddi a rhagamcanu a wneir gan SLMRU yn cefnogi datblygu ac adolygu polisïau ac arfer gan y Fforymau Sgiliau Rhanbarthol, y Grŵp Arbenigol ar Anghenion Sgiliau'r Dyfodol (Yr Adran Addysg Bellach ac Uwch, Ymchwil, Arloesedd a Gwyddoniaeth) a chyrff llywodraeth eraill, gan gynnwys SOLAS a'r ETBs.

Drwy gynhyrchu amrywiol adroddiadau, mae SOLAS yn darparu dull gweithredu ar sail tystiolaeth i olrhain graddedigion. Mae'r *National Skills Bulletin* yn gyfres flynyddol o adroddiadau a gynhyrchir gan yr Uned Sgiliau ac Ymchwil i'r Farchnad Lafur (SLMRU) yn SOLAS ar ran y Cyngor Sgiliau Cenedlaethol. Mae'n cyflwyno trosolwg o'r farchnad lafur yn Iwerddon ar lefel alwedigaethol. Nod y Bwletin yw cynorthwyo llunio polisi ym meysydd cyflogaeth, addysg/hyfforddiant, ac ymfudo (yn arbennig cyrchu sgiliau o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd sy'n brin ym marchnadoedd llafur Iwerddon ac Ewrop). Mae hefyd yn ceisio darparu gwybodaeth i ymgynghorwyr arweiniad gyrfaoedd, myfyrwyr ac eraill sy'n gwneud dewisiadau am yrfaoedd ac addysg. At ei gilydd, mae'r dadansoddi a gyflwynir yn y Bwletin yn adlewyrchu'r data a gasglwyd gan yr SLMRU dros ystod o ddangosyddion y farchnad lafur; mae'n rhychwantu 95 o grwpiau galwedigaethol ac yn archwilio ystod o ddangosyddion y farchnad lafur. Mae adroddiad *Monitoring Ireland's Skills Supply* yn gweithredu fel cyhoeddiad cydymaith i'r *National Skills Bulletin*, sy'n ystyried y galw am sgiliau yn Iwerddon, yn hytrach na'r cyflenwad sgiliau. O'u cymryd at ei gilydd, mae'r ddau adroddiad hyn yn darparu crynodeb cynhwysfawr o'r galw a'r cyflenwad sgiliau yn Iwerddon. Mae adroddiadau'r *National Skills Bulletin* 2020[31] a *Monitoring Ireland's Skills Supply*[32] yn amlygu'r mathau o ddata, ynghyd â'r ffynonellau a ddefnyddir ar gyfer dadansoddi.

Mae'r adborth yn awgrymu bod y dull gweithredu yn cael ei gymhwyso'n gyson ar draws lleoliadau addysgol, gan gynnwys AU ac AB. Cafwyd cadarnhad yr aed i'r afael â VET yn rhan o'r gwaith hwn ac nad oedd dull gweithredu ar wahân tuag ato. Mae dulliau casglu data penodol ar gyfer dysgwyr ar raglenni IVET a CVET. Esboniodd cynrychiolwyr SOLAS eu bod yn canolbwyntio ar ddatblygu dull gweithredu cenedlaethol a oedd yn cysylltu setiau data sy'n bodoli eisoes er mwyn darparu trosolwg strategol. Er eu bod wedi defnyddio arolwg i gasglu data ar un adeg, roedd hyn wedi dod yn rhan ofer o'u dull gweithredu ers 2014. Er gwaethaf hyn, nododd cynrychiolwyr SOLAS eu dyhead i ychwanegu

---

[30] Gwefan SOLAS. Ar gael yn: https://www.solas.ie/research-lp/skills-labour-market-research-slmru/research/ (Cyrchwyd 22 Hydref 2020).
[31] National Skills Bulletin (2020) SOLAS. Ar gael yn: https://www.solas.ie/f/70398/x/7b02b880e3/national-skills-bulletin_2020.pdf (Cyrchwyd 15 Ionawr 2021).
[32] Monitoring Ireland's Skills Supply (2020) SOLAS. Ar gael yn: https://www.solas.ie/f/70398/x/7401705bd5/monitoring-irelands-skills-supply-2020.pdf (Cyrchwyd 15 Ionawr 2021).

haen arall o ddata at eu dull gweithredu presennol. Roedd ganddynt ddiddordeb arbennig mewn casglu gwybodaeth am alwedigaethau ac am ddatblygu gwell dealltwriaeth ynghylch a oedd graddedigion yn defnyddio'u sgiliau. Byddent hefyd yn hoffi edrych ar ddilyniant a sut mae pobl yn teimlo amdanynt hwy eu hunain, gan ychwanegu bod hwn yn debygol o fod yn arolwg bodlonrwydd ar wahân.

Roedd y drafodaeth gyda chynrychiolwyr o sefydliadau eraill yn gyfle i nodi a oedd mesurau ychwanegol yn eu lle i gasglu tystiolaeth bellach am raddedigion VET. Oherwydd awydd i ddeall ychydig yn fwy am gyflogau eu haelodau (rhywbeth y dylid ei adolygu ar ôl blwyddyn unwaith i gyflogeion ddod yn rhannol-gymwysedig) ac a oeddent yn parhau gydag astudiaethau proffesiynol, cynhaliodd y sefydliad technegwyr cyfrifo (ATI) arolwg ymysg eu graddedigion. Yn gyferbyniad, roedd yr ETB yn dibynnu ar adborth ansoddol gan diwtoriaid, myfyrwyr a chyflogwyr wrth olrhain cynnydd graddedigion. Er nad yw QQI yn cynnal arolwg ymysg graddedigion ar hyn o bryd, mae'r ffocws ar y maes gwaith hwn wedi symud y meddylfryd rywfaint o allbynnau i ddeilliannau. Roedd diddordeb ymysg cynrychiolwyr o QQI yn y dull gweithredu a ddefnyddir yn AU lle mae graddedigion y sector cyhoeddus yn destun arolwg gyda'r data'n cael ei ledaenu drwy adroddiad o'r Awdurdod Addysg Uwch.

Mae SOLAS wedi archwilio'r deilliannau sgiliau meddalach yn rhan o'u hymchwil ar gynhwysiant gweithredol. Mae hwn yn faes gwaith pwysig, yn arbennig o ystyried bod ganddynt oddeutu 95,000 o ddysgwyr (sy'n cyfateb i oddeutu 35% o ddysgwyr nad ydynt yn ardystiedig), nad ydynt wedi'u cynnwys mewn dulliau casglu data eraill. Mae'n debyg bod ganddynt lawer o ddarpariaeth heb unrhyw gymhwyster ac mai cyrsiau cynhwysiant gweithredol yw'r rhain yn bennaf. Yn rhan o'r ffrwd waith hon, maent hefyd wedi edrych ar safbwyntiau a theimladau unigolion yn rhan o arolwg bodlonrwydd ar wahân.

Darparodd y trafodaethau gyda chynrychiolwyr SOLAS flas ar y trefniadau llywodraethu sydd yn eu lle a'r cydweithredu cysylltiedig. Un o gamau cyntaf SOLAS oedd llofnodi cytundeb gyda'r Swyddfa Ystadegol Ganolog. Gyda'r data ym mherchnogaeth y darparwyr VET, roedd yn rhaid i SOLAS sefydlu cytundebau dwyochrol gyda'r 16 ETB. Nid ar chwarae bach yr aed ati gyda'r gwaith hwn, a ddechreuodd yn 2017. Er mwyn bod mewn sefyllfa i gysylltu cronfeydd data â rhifau adnabod cymdeithasol a refeniw a chynhyrchu'r dadansoddiad deilliannau, mae aelod o dîm SOLAS wedi'i leoli ar secondiad yn y Swyddfa Ystadegau Ganolog. Yn rhan o'r broses, mae cyrff cyhoeddus yn anfon eu data at y Swyddfa Ystadegau Ganolog drwy sianel ddiogel. Caiff yr wybodaeth bersonol ei dileu a'r rhif nawdd cymdeithasol ei droi'n rhif arbennig i'r Swyddfa Ystadegau Ganolog sy'n caniatáu iddynt gysylltu'r gwahanol setiau data. Mae SOLAS am greu cysylltiad ar gyfer enillion dysgwyr a'u deilliannau

cyflogaeth. Ar hyn o bryd maent yn gallu cysylltu data o ddata'r Awdurdod Addysg Uwch ar gyfer y rhai sy'n symud i AB a'r Adran Diogelwch Cyflogaeth (DEPSA) ar gyfer graddedigion VET sy'n gwneud hawliau am fudd-daliadau llesiant. Caiff y data ei gysylltu hefyd â QQI i olrhain dysgwyr sy'n ennill gwahanol ddyfarniadau.

Roedd ymdeimlad bod hwn ar ei gamau cynnar ac y gallai rhagor o dystiolaeth ddod i'r amlwg wrth iddynt ddatblygu eu dull gweithredu systemataidd ymhellach. Dywedodd un cynrychiolydd o QQI, "Dwi ddim yn credu o bell ffordd ein bod ni wedi dod i ddiwedd yr hyn mae'r data yn ei ddweud wrthon ni am bobl yn symud drwy'r system." Cyfeiriodd cynrychiolwyr o'r sefydliad at sefydlu'r Is-Grŵp Diwygio Cyfnodau Pontio FET-HE ym mis Mawrth 2017 fel datblygiad pwysig yn fframwaith cyffredinol y cyfnod pontio dan arweiniad yr Adran Addysg a Sgiliau. Er bod dilyniant i addysg uwch yn un o'r deilliannau a dargedir drwy Addysg Bellach a Hyfforddiant (FET), cydnabyddir ar draws sawl strategaeth genedlaethol bod angen i lefelau dilyniant gynyddu ac y dylid sefydlu dull gweithredu mwy cyson tuag at hwyluso dilyniant o'r fath. Yn hyn o beth, siarsiwyd yr Is-Grŵp i ymgymryd â'r cylch gorchwyl canlynol: (1) Mapio a gwerthuso arferion a data pontio FET-HE presennol ar draws y Sectorau Addysg Bellach ac Addysg Uwch; (2) Datblygu cynigion fel bod cymwysterau addysg a hyfforddiant o'r sector FET yn cael eu cydnabod i gael mynediad i Addysg Uwch mewn modd cytunedig a chyson; (3) Archwilio materion penodol yn gysylltiedig â phontio ar gyfer dysgwyr o addysg bellach a hyfforddiant i'r drydedd lefel; a (4) Ystyried a chynnig argymhellion ynghylch sut orau i bennu cymwysterau addysg bellach a hyfforddiant at ddibenion pwyntiau a mynediad i addysg uwch. Er nad oedd y data wed cael ei gynhyrchu ar adeg yr ymweliad, esboniodd cynrychiolydd o'r QQI fod "data calonogol a chyfoethog iawn yn deillio o'r gwaith hwn". Mae'n amlwg bod nifer o ddatblygiadau a fyddai'n cryfhau ymhellach y mesurau a'r dulliau gweithredu a ddefnyddir yn Iwerddon.

O edrych at y dyfodol, nododd cynrychiolydd o SOLAS eu bod yn ystyried ffyrdd o wella ar y sylfeini a osodwyd drwy'r dull gweithredu systemataidd. Roeddent yn frwdfrydig i ddatblygu data amser real a system dangosfwrdd ar ryw adeg yn y dyfodol.

### 4.4 Sbaen

Mae VET yn Sbaen yn gyfrifoldeb gan amlaf i'r awdurdodau addysg a chyflogaeth. Y Cyngor Hyfforddiant Galwedigaethol Cyffredinol yw corff cynghori cenedlaethol y llywodraeth ar bolisi VET ac arno mae cynrychiolwyr o awdurdodau cyhoeddus cenedlaethol a rhanbarthol ynghyd â phartneriaid cymdeithasol, fel sefydliadau menter ac undebau llafur[33]. Caiff cymwysterau VET (diplomâu VET) eu

[33] Spotlight on VET: Sbaen (2014) CEDEFOP. Ar gael yn: https://www.cedefop.europa.eu/files/8054_en.pdf (Cyrchwyd 22 Hydref 2020).

dyfarnu gan yr awdurdodau addysg ac maent yn tystysgrifo lefel addysg (o addysg uwchradd i addysg uwch) a sgiliau a chymwyseddau galwedigaethol. Mae'r tystysgrifau hynny a ddyfernir gan yr awdurdodau cyflogaeth (tystysgrifau proffesiynol) yn cynnwys tair lefel ac yn ardystio'r sgiliau a'r cymwyseddau galwedigaethol sydd wedi'u caffael.

Mae VET fel arfer yn dechrau ar ôl diwedd addysg orfodol. Mae dysgwyr sy'n dewis VET yn yr ysgol yn mynychu rhaglen ddwy flynedd sy'n arwain at ddiploma VET lefel ganolradd. Mae'r diploma hwn yn rhoi mynediad i VET lefel uwch drwy weithdrefn dderbyn. Mae opsiynau FET hefyd ar gyfer y rhai nad ydynt wedi cwblhau addysg orfodol sy'n dyfarnu tystysgrifau proffesiynol ar Lefel 1 EQF o'r gofrestr genedlaethol. Gall pobl dros 16 oed fynychu rhaglenni sy'n dyfarnu tystysgrifau proffesiynol. Mae gofynion mynediad a hyd amser yn amrywio yn ôl lefel y deilliannau dysgu. Gellid ystyried bod y rhaglenni hyn yn VET cychwynnol neu barhaus, gan ddibynnu ar gefndir a phrofiad proffesiynol dysgwyr. Mae rhaglenni VET lefel ganolradd ac uwch mewn celf a dylunio a chwaraeon. Mae addysg drydyddol neu uwch yn cynnwys astudiaethau prifysgol a VET lefel uwch. Ers 2011, mae diplomâu VET lefel uwch wedi'u haseinio i'r gyntaf o bedair lefel yn fframwaith cymwysterau addysg uwch Sbaen (MECES). Mae cydnabod rhai systemau trosglwyddo a chronni credydau Ewropeaidd yn caniatáu dilyniant ar gyfer graddedigion VET uwch ac astudiaethau ategol i'r rhai hynny o'r brifysgol[34].

Mae CVET ar gyfer pobl gyflogedig neu ddi-waith yn gallu cael ei arwain gan y galw amdano drwy hyfforddiant mewn cwmnïau neu ar ffurf hawlebau hyfforddi unigol ar gyfer cymwysterau ffurfiol a gyllidir drwy fonws nawdd cymdeithasol. Gellir cynnig CVET hefyd yn rhan o bolisïau marchnad lafur gweithredol, gan annog pobl i uwchraddio'u sgiliau a chaffael tystysgrifau proffesiynol ar sail safonau galwedigaethol. Caiff yr hyfforddiant hwn ar yr ochr gyflenwi ei gyllido drwy gyllid cyhoeddus[35].

Mae adroddiad *Mapping of VET graduate tracking measures in EU Member States* (2017) yn awgrymu nad oes gan Sbaen fesurau olrhain VET rheolaidd ar y lefel genedlaethol er bod yr adroddiad yn nodi bod y dadansoddiad yn cynnig darlun rhannol yn unig o'r trefniadau yn Sbaen. Mae'r adborth gan gynrychiolwyr o'r Weinidogaeth Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol yn awgrymu bod data gweinyddol yn cael ei ddadansoddi ar lefel genedlaethol. Nododd cyfweleion eu bod yn derbyn yr wybodaeth am fyfyrwyr a graddedigion VET gan y rhanbarthau ac yna'n cysylltu'r wybodaeth â data nawdd cymdeithasol sy'n cynnwys gwybodaeth fisol am gontractau pobl sy'n gweithio. Maent yn defnyddio canlyniadau'r Arolwg o'r Farchnad Lafur, a gynhelir gan y Swyddfa Ystadegol Genedlaethol, i nodi cyrchfannau graddedigion prifysgolion a graddedigion nad ydynt yn rhai prifysgol. Mae *Mapping*

[34] Spotlight on VET: Sbaen (2014) CEDEFOP. Ar gael yn: https://www.cedefop.europa.eu/files/8054_en.pdf (Cyrchwyd 22 Hydref 2020).
[35] CVET in Europe: The way ahead (2015) Swyddfa'r Undeb Ewropeaidd. Ar gael yn: https://www.cedefop.europa.eu/files/3070_en.pdf (Cyrchwyd 22 Hydref 2020).

*of VET Graduate Tracking Measures in Spain* (2019) yn cynnig golwg fwy cywir o realiti mesurau olrhain graddedigion VET a gynhelir ar lefel genedlaethol a lefel ranbarthol.

Mae'r adroddiad yn nodi, yn y cyd-destun cenedlaethol, fod pedwar mesurau olrhain graddedigion VET wedi'u nodi, gan gynnwys: (1) Adroddiad Cyflogaeth Graddedigion VET (a reolir gan y Weinidogaeth Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol); (2) yr Arolwg i Gyflogaeth ac Astudiaethau Pellach (a reolir gan Weinidogaeth yr Economi a Busnes); (3) Gwybodaeth Fisol / Flynyddol ar y Farchnad Swyddi i Raddedigion VET (a reolir gan y Weinidogaeth Llafur, Ymfudo a Nawdd Cymdeithasol); a (4) Data Llwybrau Cyflogaeth (a reolir hefyd gan y Weinidogaeth Llafur, Ymfudo a Nawdd Cymdeithasol). Nododd cyfweleion fod yr arolygon hyn yn ategu ei gilydd ac yn darparu data gwerthfawr sy'n gallu cael ei ddadansoddi dros amser. Mae'r mesurau a'r arolygon olrhain yn ddarnau o waith ar wahân sydd wedi'u cymhathu i ddatblygu darlun mwy cynhwysfawr ar gyfer darparwyr addysg.

Cyfleodd y cyfweliadau heriau sefydlu darlun cyson o'r systemau sydd yn eu lle ar draws y wlad. Esboniodd un o'r cyfweleion a oedd yn gysylltiedig â'r ymchwil ar olrhain graddedigion VET yn Sbaen, “mae Sbaen yn wlad ddatganoledig iawn. Mae yna 17 rhanbarth ymreolaethol. Pan wnaethon ni ein hymchwil, roedd tirwedd fratiog gyda rhai rhanbarthau'n defnyddio arolygon a data gweinyddol ac eraill yn cynnal eu hastudiaethau eu hunain.” Nodwyd bod y ffaith nad oedd dull gweithredu cyffredin yn ei gwneud yn anodd coladu'r wybodaeth am raddedigion VET.

Disgrifiodd ein cyfweleion y llu o fentrau ar lefel ranbarthol ac mae astudiaeth Sbaen yn cadarnhau bod gan bob un o'r 17 rhanbarth o leiaf un mesur olrhain yn ei le, neu o leiaf wedi bod. Roedd yr astudiaeth Ewropeaidd wedi nodi 23 mesur. Roedd gan 15 rhanbarth 'fesurau olrhain rheolaidd' tra bod gan bedwar 'fesurau gyda phedwar dangosydd allweddol am gyflogaeth ac addysg’. Cadarnhaodd un o'r cyfweleion sydd wedi astudio'r gwahanol arferion yn Sbaen fod y rhanbarthau'n casglu gwybodaeth am y pedwar dangosydd, sef statws cyflogaeth, y math o gontract, enillion, a chyfranogiad mewn addysg bellach a hyfforddiant oherwydd eu bod yn cael eu hannog i wneud hynny ar lefel genedlaethol. Mewn 13 o ranbarthau, mae olrhain cyrchfannau graddedigion VET yn rhwymedigaeth gyfreithiol. Nododd yr adroddiad Ewropeaidd a ystyriodd ddull gweithredu Sbaen fod 70% o fesurau olrhain yn cynnwys arolygon a 30% yn cynnwys data gweinyddol. At hynny, roedd 78% yn cynnwys y boblogaeth gyfeirio gyfan tra bod 22% yn cynnwys samplau. Mae 19% o'r mesurau'n cynnwys y pedwar dangosydd allweddol tra bod dim un o'r mesurau a nodwyd yn cyfuno data gweinyddol a data arolygon. Roedd yn ddiddorol canfod mai dim ond 29% o'r mesurau sy'n cynnwys astudiaethau hydredol lle maent yn olrhain yr un sampl o raddedigion ar wahanol bwyntiau amser.

Esboniodd cyfweleion fod y Weinidogaeth Addysg yn darparu canllawiau i'r rhanbarthau ar sail data gweinyddol yn bennaf. Byddai'r Weinidogaeth yn diffinio methodoleg gyffredin ac yna'n gofyn i'r rhanbarthau gynhyrchu'r ystadegau angenrheidiol. Mae'r dull gweithredu wedi cynnwys gweithio'n agos â'r rhanbarthau i ddatblygu eu dulliau gweithredu. Esboniodd cyfweleion fod y data cenedlaethol, a oedd yn edrych yn bennaf ar ddeilliannau cyflogaeth, yn ychwanegu gwerth i'r data rhanbarthol, gan gynnwys edrych ar leoliad myfyrwyr chwe mis ar ôl graddio. Fel y nododd un cyfwelai, "Mae'r ddwy set o wybodaeth yn rhoi gwahanol safbwyntiau i chi."

Er ei bod yn anodd dadansoddi arferion yr holl ranbarthau yn rhan o'r astudiaeth hon, helpodd y cyfweleion i gipio dull gweithredu un rhanbarth yng ngogledd Sbaen. Roedd y fethodoleg yn y rhanbarth arbennig hwn yn cynnwys cynrychiolwyr colegau yn cynnal arolwg gyda myfyrwyr chwe mis ar ôl iddynt raddio. Esboniodd y cyfwelai'r broses: “Byddai pob tiwtor yn cysylltu â'i gyn-ddisgyblion ac yn ceisio deall pedwar cwestiwn sylfaenol: Oedden nhw wedi dod o hyd i swydd? Oedd y swydd yn gysylltiedig â'u cymhwyster? Oedden nhw wedi'u cyflogi gan y cwmni lle gwnaethant eu lleoliad gwaith? Ydyn nhw wedi symud ymlaen i astudio? Mae'r rhain yn ddangosyddion go sylfaenol ac maent yn cael eu defnyddio ar draws rhanbarthau Sbaen.” Roedd awgrym yn ystod y trafodaethau hyn fod y dull gweithredu hwn yn cael ei ddefnyddio ar draws rhai rhanbarthau.

Mewn ymdrech i ddarparu amserlen ar gyfer adrodd ar lefel genedlaethol, nododd cynrychiolwyr o'r Weinidogaeth Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol eu bod wedi rhyddhau adroddiad a oedd yn ystyried y cyfnod rhwng 2015/16 a 2018/19 yn 2020. Ar un pwynt, roeddent wedi ystyried adrodd ar gylchoedd tair blynedd ond penderfynwyd bod hyn yn rhy fyr ac y dylent symud y dadansoddiad i gyfnod o bedair blynedd. Yn dilyn argymhellion adolygiad diweddar, mae'r Weinidogaeth bellach yn ystyried edrych ar daith myfyriwr dros gyfnod o bum mlynedd.

Mae adroddiad 2017 y Comisiwn Ewropeaidd yn nodi bod gan y rhan fwyaf o ranbarthau yn Sbaen hanes hir o ddylunio a datblygu mesurau olrhain graddedigion VET. Fodd bynnag, amlygodd rhai a gyfrannodd at yr astudiaeth hon fod anhawster o ran dyfnder y dadansoddi, gyda'r rhanbarthau'n adrodd fel arfer ar ganfyddiadau allweddol fel nifer y graddedigion VET yn symud i gyflogaeth.

Er gwaethaf cynhyrchu adroddiadau manwl, roedd cyfweleion yn awyddus i ddatblygu mecanwaith clir a fyddai'n hwyluso cyfathrebu a chyfnewid gwybodaeth a phrofiad ar lefel genedlaethol. Cwestiynodd rhai o'r cyfweleion a oedd cyfle i fod yn fwy effeithiol o ran lledaenu gwybodaeth. Roedd ymdeimlad y dylai'r Weinidogaeth Addysg ystyried y maes gwaith hwn gyda'r rhanbarthau. Yn ôl un cyfwelai, "Nid yw'r neges yn cyrraedd pobl. Nid yw colegau'n derbyn yr wybodaeth er eu bod wedi bod yn gysylltiedig â'i chasglu. Mae cyfle i ddarparu adroddiadau wedi'u teilwra i golegau.” Mae

astudiaeth Sbaen yn awgrymu y byddai creu gweithgor lle caiff yr awdurdodau cenedlaethol a rhanbarthol sy'n gysylltiedig ag olrhain graddedigion VET eu cynrychioli, yn galluogi nodi heriau a synergeddau cyffredin.

4.5 Yr Eidal

Mae addysg orfodol yn rhychwantu cyfnod o 10 mlynedd hyd at 16 oed ac mae'n cynnwys y ddwy flynedd gyntaf mewn addysg gyffredinol uwchradd neu VET. Mae hyfforddiant galwedigaethol yn gymhwysedd rhanbarthol yn yr Eidal er bod rhaglen gydgordio genedlaethol wedi dechrau i wneud cymwysterau rhanbarthol yn gymaradwy ac adnabyddus.

Mae Sefydliad y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Dadansoddi Polisïau Cyhoeddus (INAPP) yn gorff ymchwil cenedlaethol sy'n cael ei oruchwylio gan y Weinidogaeth Lafur a Pholisïau Cymdeithasol . Mae'n gyfrifol am ddadansoddi, monitro a gwerthuso'r farchnad lafur, addysg a hyfforddiant, polisïau cymdeithasol a pholisïau economaidd cyffredinol sy'n effeithio ar y farchnad lafur. Yn ogystal, mae INAPP yn aelod o'r System Ystadegol Genedlaethol ac mae'n cydweithredu gydag amrywiaeth o sefydliadau Ewropeaidd. Mae'n darparu cymorth methodolegol a gwyddonol i Weithredoedd System Cronfa Gymdeithasol Ewrop a dyma'r Asiantaeth Genedlaethol ar gyfer Rhaglen Ewropeaidd Erasmus+ ym maes addysg a hyfforddiant galwedigaethol[36].

Ar lefel genedlaethol, mae INAPP yn defnyddio data gweinyddol i olrhain cynnydd graddedigion IVET ar ôl iddynt raddio ar ran y Weinidogaeth Lafur. Caiff y ffigyrau eu cynhyrchu yn ôl rhanbarth ac maent yn cynnwys niferoedd graddio'n gysylltiedig â llwybrau dysgu myfyrwyr. Mae'r fframwaith gwybyddol sy'n cael ei ailgynhyrchu o flwyddyn i flwyddyn yn cynnwys agweddau'n gysylltiedig â rhaglenni VET tair blynedd a phedair blynedd gan gyfeirio at y cynnig hyfforddiant (cyrsiau), cyfranogiad (y rhai a ymrestrodd), a deilliannau (y rhai a gymhwysodd ac a raddiodd). Yn rhan o'r dadansoddi, mae INAPP yn darparu dadansoddiadau yn ôl gwahanol feysydd, gan gynnwys math y llwybr, oed, rhywedd, presenoldeb defnyddwyr o darddiad tramor, ac yn y blaen. Gellir ystyried, felly, bod y mesur yn rhannol systemataidd.

Mae INAPP hefyd yn cynnal arolwg ar ddysgwyr VET gyda'r nod o gaffael gwybodaeth feintiol ac ansoddol er mwyn llunio, ar ran y Weinidogaeth Lafur a Pholisïau Cymdeithasol, adroddiad monitro sy'n disgrifio cynnydd y system. Mae'n arolwg a drefnir ar y cyd rhwng y Weinidogaeth Lafur a Pholisïau Cymdeithasol a'r Weinidogaeth Addysg. Mae'n defnyddio adborth gan yr 21 Rhanbarth a

[36] Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Dadansoddi Polisïau Cyhoeddus (INAPP), gwefan Sefydliad Dysgu Gydol Oes UNESCO. Ar gael yn: https://uil.unesco.org/partner/library/national-institute-public-policy-analysis-inapp-italy (Cyrchwyd 12 Ionawr 2021).

Thalaith Ymreolaethol sy'n casglu data ansoddol a meintiol yn eu priod diriogaethau. Caiff yr ystadegau hyn eu defnyddio gan y Weinidogaeth Lafur at ddibenion cyllid.

Mae arolwg ychwanegol bob dwy i dair blynedd sy'n canolbwyntio ar gyfraddau cyflogaeth, bodlonrwydd a'r cyswllt â'r llwybr dysgu. Mae arolwg ansoddol a wneir ar y lefel ranbarthol ac mae'r gyfradd ymateb yn amrywio'n sylweddol rhwng y rhanbarthau. Mae'r data a gyflenwir gan y gweinyddiaethau rhanbarthol hefyd yn galluogi cwmnïau ymchwil i gynnal cyfweliadau ffôn gyda myfyrwyr.

Gyda system VET ranbarthol yn hytrach nag un genedlaethol, nid oes syndod, o bosibl, bod dulliau gweithredu olrhain VET yn amrywio ar draws y rhanbarthau. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod olrhain VET yn bodoli mewn rhai rhanbarthau er ei bod yn werth nodi bod cyfweleion o'r farn bod hyn wedi'i danddatblygu. Fel yr amlygwyd yn adroddiad prosiect Tracktion, mae'r system VET yn gadarn iawn mewn rhai rhanbarthau fel Lombardy. Yn y rhanbarth hwn, mae'r llywodraeth wedi creu llwyfan gyda gwybodaeth am fynediad graddedigion i'r farchnad lafur sy'n hygyrch ar gyfer asiantaethau gwaith. Yn ôl un cyfwelai, mae'n rhaid i bob cwmni gwblhau gwybodaeth am eu cyflogeion gan gynnwys enillion a math o gontract. Mae hyn wedi caniatáu i'r rhanbarth ddefnyddio'r rhif yswiriant cymdeithasol i weld a yw myfyrwyr yn gweithio. Nid oes ganddynt wybodaeth am y rhai hynny nad ydynt yn gweithio nac mewn contract, fodd bynnag. Dylid amlygu bod y system hon yn golygu olrhain graddedigion hyd at Lefel 4 EQF a hyd at Lefel 5 EQF (Addysg Uwch) ac mae'n agored i bobl fel ymgynghorwyr gyrfaoedd sydd wedi'u hawdurdodi i gyrchu'r data. Mae asiantaeth genedlaethol sy'n olrhain graddedigion VET ar Lefel 5.

Nodwyd bod mesurau olrhain yn eu lle ar lefel darparwr e.e. mae Cometa Formazione yn addysgu tua 1,300 o blant, arddegwyr, gwirfoddolwyr a gweithwyr proffesiynol ac yn defnyddio gwefan ranbarthol i gasglu gwybodaeth am statws myfyrwyr. Mae'r wybodaeth yn gysylltiedig â chod treth alffamerig cyn-fyfyrwyr, rhywbeth y mae gan y tîm fynediad iddo oherwydd statws barnwrol ei Swyddfa Lleoli Swyddi. Drwy hyn, mae ffordd hawdd o gasglu swmp cyntaf o ddata gweinyddol am gyrchfannau graddedigion. Yn fuan wedyn, mae'r swyddfa Lleoli Swyddi'n cysylltu â chyn-fyfyrwyr dros y ffôn i gasglu gwybodaeth ychwanegol fel eu cyfeiriad, oed, perchnogaeth car, interniaethau a wnaed, anabledd, dyddiad y gyflogaeth ddiweddaraf, dyddiad dirwyn i ben eu contract, cydnabyddiaeth ariannol, cwmni, a sector cyflogaeth. Yn ôl adroddiad Tracktion, ymhlith y math o feysydd maent yn eu harchwilio mae:

- Dangosyddion am gefndir unigol dysgwyr (gwybodaeth gymdeithasol-fywgraffiadol ac economaidd-gymdeithasol).

- Dangosyddion am astudiaethau a gwblhawyd (Cymwysterau a Meysydd astudio).
- Dangosyddion am gyrchfannau graddedigion (Pontio i gyflogaeth neu addysg bellach a hyfforddiant; Enillion; Math o gontract; Statws cyflogaeth; Galwedigaeth, statws proffesiynol a/neu weithgarwch).
- Canfu Tracktion mai dim ond dau fesur sy'n denu gwybodaeth am ansawdd y swydd, gan gynnwys gwybodaeth am y math o gontract (parhaol/dros dro, rhan-amser/amser llawn) ac enillion[37].

Mae system olrhain Cometa'n dibynnu ar y berthynas anffurfiol rhwng y tiwtor a'r myfyriwr a'r Swyddfa Lleoli Swyddi. Ar hyn o bryd mae'r tiwtoriaid yn gyfrifol am gofnodi'n ffurfiol gyrchfannau cyn-fyfyrwyr ac archwilio nifer o feysydd cysylltiedig ar y pwnc hwn, gan gynnwys a oes gan raddedigion eu trafnidiaeth eu hunain. Mae'r rôl mae'r Tiwtor Lleoli Gwaith yn ei chwarae'n gyffredin i Cometa am mai un o nodweddion y sefydliadau hyn yw bod ganddynt adran benodol sy'n gyfrifol am fynediad y graddedigion i'r farchnad lafur. Cysylltir â graddedigion o'r flwyddyn flaenorol (sef y rhai a raddiodd ym mis Mehefin y flwyddyn gynt) bob tri mis ar ôl iddynt raddio, er mai dwywaith y flwyddyn y caiff graddedigion llai diweddar eu holrhain. Mae hyn yn galluogi darlun mwy cyfoes o sefyllfa gyflogaeth bresennol y graddedigion a dilyniant gyrfaol yn ogystal â gwell amcangyfrif o fanteision economaidd a chymdeithasol VET. Dywedodd y cynrychiolydd o Cometa bod 70-80% o bobl yn ateb yn y flwyddyn gyntaf fel arfer. Mae'r gyfradd ymateb hon yn gostwng dros amser.

Defnyddir olrhain graddedigion VET at ddibenion gweinyddol ac ystadegol. Mae Cometa'n coladu'r dystiolaeth i helpu gyda sicrhau ansawdd sefydliadol, dadansoddi gweinyddol ac ystadegol, a llunio rhaglenni. Roedd cynrychiolydd o'r sefydliad yn ansicr a oeddent yn cynhyrchu adroddiad blynyddol er yr awgrymwyd bod rhywbeth tebyg i adroddiad cryno'n cael ei gynhyrchu bob rhyw dair blynedd. Disgrifiodd y cyfwelai sut byddent yn defnyddio'u data cyflogaeth cadarnhaol i hysbysebu a recriwtio darpar fyfyrwyr. Mae'n ymddangos bod y data hefyd yn cael ei ddefnyddio i gymharu colegau. Nid yw hyn yn cael ei annog mwyach er eu bod yn defnyddio data'n fewnol gyda staff ac yn allanol gyda rhoddwyr. Dywedodd un cyfwelai, "Mae'n bwysig darparu gwybodaeth fanwl am grwpiau penodol roedd rhoddwyr yn eu cefnogi. Rydyn ni hefyd yn rhannu gwybodaeth gyda chwmnïau rydym am ddechrau gweithio gyda nhw. A chydag asiantaethau cyhoeddus, wrth gwrs."

Gan edrych tua'r dyfodol, mae Cometa'n gobeithio sefydlu cymuned alwmni. Byddent yn hoffi sbarduno rhywbeth tebyg i arolwg panel, dull o ymchwil sy'n defnyddio panel cyson o gyfranogwyr, gydag ymchwilwyr yn dychwelyd i'r un bobl i gynnal arolygon neu gynnal cyfweliadau dro ar ôl tro dros amser. Byddai hyn yn helpu'r sefydliad i ddeall cyrchfan graddedigion, eu rolau, yn ogystal â

[37] Astudiaeth Waelodlin (2018) Tracktion. Ar gael yn: https://tracktionerasmus.eu/wp-content/uploads/2020/11/TRACKTION_baseline_study.pdf (Cyrchwyd 12 Ionawr 2021).

chaniatáu i gynrychiolwyr gadw mewn cysylltiad â chyflogwyr a chyflogeion. Maent yn rhagweld datblygu rhywbeth tebyg i arolwg ond drwy rwydwaith.

4.6 Awstria

Mae canllaw Cedefop yn nodi bod cynnig gwahaniaethol a hynod ddeniadol Awstria'n cyfrannu at apêl VET yn y wlad, gyda 70% o bob carfan yn dewis llwybr VET ar ddiwedd addysg orfodol. Mae'r adroddiad yn cadarnhau bod VET a phrentisiaethau yn yr ysgol (hyfforddiant trac deuol) yn cydfodoli ac yn rhychwantu bron bob sector economaidd ac yn arwain at gymhwyster ar lefel 4 neu 5 EQF). Mae'r rhan fwyaf o VET yn yr ysgol yn disgyn o dan gylch gwaith y weinidogaeth addysg. Mae llywodraethiant prentisiaethau'n cael ei rannu gan weinidogaethau'r economi (trac drwy gwmnïau) ac addysg (trac yn yr ysgol), y partneriaid cymdeithasol a'r Länder[38].

Ar lefel uwchradd uchaf, gall dysgwyr ddewis o blith opsiynau cyn-VET a VET mewn gwahanol alwedigaethau/sectorau ochr yn ochr â'r rhaglenni addysg mwy cyffredinol. Mae amrywiol raglenni VET ar lefel drydyddol ac i oedolion. Ar lefel drydyddol, mae prifysgolion gwyddorau cymhwysol yn darparu rhaglenni baglor a meistr sy'n ffocysu ar ymarfer, a hynny mewn meysydd gwahanol. Yn ôl canllaw Cedefop, mae sawl un o'r rhain yn cynnwys lleoliad gwaith gorfodol, gyda llawer o raglenni'n darparu ar gyfer y rhai hynny sydd mewn cyflogaeth. I addysg i oedolion, gall unigolion ennill yr un cymwysterau drwy addysg a hyfforddiant ffurfiol â'r rhai sy'n agored i bobl ifanc. Mae ystod amrywiol o sefydliadu'n cynnig cyfleoedd hyfforddiant a dilyniant i ategu neu uwchraddio cymwysterau cychwynnol unigolion[39].

Am nad yw olrhain graddedigion VET yn cael ei drafod yn gyffredinol mewn dogfennau polisi VET, nid oes rhwymedigaeth gyfreithiol i ymgymryd ag olrhain[40]. Er hynny, yn 2004, dechreuodd Gweinidogaeth Ffederal Addysg, Gwyddoniaeth ac Ymchwil Awstria'r Fenter Ansawdd VET, neu QIBB, i roi camau rheoli ansawdd systemataidd ar waith yn sector ysgolion VET Awstria. Mae QIBB wedi'i weithredu yn y sector ysgolion VET gyfan bron yn Awstria ers blwyddyn ysgol 2006/07. Caiff pob lefel sefydliadol mewn systemau ysgol eu gwerthuso'n rheolaidd a'u gwella'n gyson mewn cylch sicrhau ansawdd pedwar cam. Caiff y broses ei rheoli, ei chefnogi a'i strwythuro drwy gymhwyso offerynnau rheoli ansawdd penodol[41]. Yn sgil adolygu dogfennaeth, mae'n awgrymu bod gwerthuso'n chwarae rôl

---

[38] Spotlight on VET: Awstria (2018) CEDEFOP. Ar gael yn: https://www.cedefop.europa.eu/files/8127_en.pdf (Cyrchwyd 22 Hydref 2020).
[39] Spotlight on VET: Awstria (2018) CEDEFOP. Ar gael yn: https://www.cedefop.europa.eu/files/8127_en.pdf (Cyrchwyd 22 Hydref 2020).
[40] OnTrack (2019) Prifysgol Dechnegol Košice. Ar gael yn: http://ontrack-project.eu/images/articles/ON_TRACK_IO1_CONTEXT_STUDY_OF_TRACKING_SYSTEMS_AND_MEASURES.pdf (Cyrchwyd 22 Hydref 2020).
[41] Menter Ansawdd VET - QIBB. Ar gael yn: https://qibb.at/fileadmin/content/QIBB/Dokumente/Sonstige_Dokumente/Information_EN_QIBB_2018.pdf (Cyrchwyd 22 Hydref 2020).

allweddol yn y broses rheoli ansawdd gyda phwyslais arbennig ar adborth gan unigolion ac adborth am y system.

Dylid nodi nad yw'r mesurau rheoli ansawdd QIBB y soniwyd amdanynt gynt yn olrhain nac yn monitro graddedigion yn unswydd. Gyda sefyllfa oedolion ifanc wrth iddynt symud o addysg i'r farchnad lafur o dan y chwyddwydr, sefydlodd Gwasanaeth Cyflogaeth Cyhoeddus Awstria (AMS) a'r swyddfa ystadegau (Statistics Austria) fesur cenedlaethol o olrhain myfyrwyr. Dyma'r monitro gyrfaol cyflogaeth yn gysylltiedig ag addysg (BibEr) a ddechreuodd ym mlwyddyn academaidd 2008/09[42]. Caiff y prosiect hwn ei gyllido gan y Weinidogaeth Ffederal dros Lafur, Materion Cymdeithasol a Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaeth Cyflogaeth Cyhoeddus Awstria (AMS). Mae Statistics Austria, y swyddfa ystadegau genedlaethol, yn casglu data drwy ffynonellau data gweinyddol (e.e. cofrestr y boblogaeth, y gofrestr nawdd cymdeithasol), gan gynnwys manylion am addysg a’r farchnad lafur. Prif nod BibEr yw cefnogi gwerthusiad sy'n ddilys yn ystadegol o gyflogaeth a gyrfa'r holl bobl hynny sy'n byw yn Awstria ar ôl iddynt adael sefydliad addysg ffurfiol. Grŵp targed BibEr yw holl raddedigion sefydliad addysg ffurfiol ac felly mae'n rhychwantu mwy na graddedigion VET yn unig.

Yn debyg i wledydd eraill fel yr Iseldiroedd ac Iwerddon, caiff data ei gasglu ar bwyntiau mesur niferus a chaiff cynnydd dysgwyr ei fesur yn barhaus sawl mis ar ôl iddynt raddio. Mae mesur cynnydd yn monitro cyfranogiad graddedigion mewn addysg bellach, llwybrau hyfforddi ac a enillodd y person graddedig unrhyw gymhwyster pellach. Am fod y gwaith hwn yn darparu mewnwelediad i fynediad graddedigion i'r farchnad lafur, mae'r canlyniadau'n chwarae rôl bwysig wrth gefnogi cynllunio polisi a datblygiadau at y dyfodol. Un o brif fanteision BibEr, o bosibl, yw ei fod yn darparu'r gallu i olrhain graddedigion o wahanol raglenni addysg a hyfforddiant ffurfiol. Gyda mwy o garfanau graddedigion yn cael eu hintegreiddio i'r data bob blwyddyn, mae'r gronfa o ddata gweinyddol sy'n helpu olrhain amrywiol raddedigion yn tyfu ac mae wedi dod yn haws dadansoddi mynediad graddedigion i'r farchnad lafur o wahanol raglenni addysg a hyfforddiant ffurfiol. Er bod Awstria'n cyflawni'r polisïau ac amcanion VET Ewropeaidd gyda phrosiect BibEr, cafodd ei ddatblygu fel offeryn dadansoddol gyda data ystadegol ac ni all fonitro nac olrhain graddedigion VET unigol (e.e. cymhelliant person graddedig VET unigol neu ei fodlonrwydd yn ei waith). Mae hefyd yn werth nodi nad yw'r data ar gael ar gyfer rhaglenni astudio unigol na darparwyr addysgol am nad yw Statistics Austria (sy'n gyfrifol am fonitro BibEr) am i'r canlyniadau gael eu defnyddio at ddibenion meincnodi na rhestru yn ôl perfformiad.

[42] Monitro Ymddygiad Cyflogaeth yn gysylltiedig ag Addysg, Statistics Austria. Ar gael yn: https://www.statistik.at/web_en/statistics/PeopleSociety/education/monitoring_education_related_employment_behaviour/index.html (Cyrchwyd 22 Hydref 2020).

Yn ogystal â BibEr, mae Gwasanaeth Cyflogaeth Cyhoeddus Awstria (AMS) a Siambr Lafur Awstria (AK Österreich) wedi cynnal astudiaethau unigol. At hynny, mae ibw Awstria'n parhau i ryddhau ystod o astudiaethau thematig ar raddedigion VET. O 2008 i 2014, er enghraifft, bu i ibw olrhain graddedigion gyda chymwysterau prentisiaethau gyda data o Siambrau Economaidd Awstria (WKO), yr AMS a'u cyfrifiadau statig eu hunain. Cafodd y data hwn ei ddefnyddio i ddadansoddi llwyddiant graddedigion yn y farchnad lafur. Cynhaliwyd ymarfer olrhain graddedigion prentisiaethau arall yn genedlaethol rhwng 2016 a 2017 ac yn 2018, cyfwelodd ibw ag amrywiol gwmnïau a sefydliadau mewn perthynas â'r personél arbenigol yn eu gweithlu.

Roedd ein hymchwil ar ysgolion a cholegau VET yn gyfle i ddeall a oedd unrhyw fesurau yn eu lle ar lefel darparwr, ac os oedd, beth roedd y rhain yn ei gynnwys. Esboniodd adroddiad OnTrack[43] fod rhwymedigaeth gyfreithiol ar brifysgolion gwyddorau cymhwysol i olrhain eu graddedigion. Mae'r prifysgolion yn defnyddio Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ac Achredu Awstria (AQ) am ddadansoddiadau ac adroddiadau am eu hansawdd a'u hachrediad, ond hefyd i ddadansoddi sut mae graddedigion yn integreiddio i'r farchnad lafur. Tybiodd yr adroddiad fod y rhan fwyaf o'r wybodaeth am raddedigion yn cael ei chyfnewid yn ystod cyfarfodydd ac aduniadau alwmni.

Er gwaethaf y ffaith mai dim ond un coleg y cyfwelwyd ag ef, cadarnhaodd ein cyfweliad gyda Phennaeth HTL Steyr mai dyma oedd y gwir. Ysgol uwchradd yn Awstria a'i ffocws ar beirianneg yw Höhere Technische Lehranstalt (*Sefydliad Addysg Dechnegol Uwch* yn Almaeneg, neu *Goleg Technegol* yn fras), sy'n cael ei hadnabod yn gyffredin fel HTL. Mae sefydliadau o'r fath yn rhan bwysig o addysg alwedigaethol Awstria. Mae HTL yn arbenigo mewn disgyblaethau fel peirianneg sifil, electroneg, peirianneg drydanol gyda chyrsiau'n para pum mlynedd ar gyfer pobl ifanc rhwng 14 a 19 oed. Ar ôl yr arholiad terfynol, gall graddedigion, ar ôl tair blynedd o brofiad gwaith ym maes peirianneg, ymgeisio am deitl proffesiynol Ingenieur (Peiriannydd). Awgrymodd y cyfweliad fod olrhain yn cael ei wneud drwy gysylltiadau alwmni cadarn iawn. Yn draddodiadol, mae'r cysylltiadau hyn yn bwysig iawn yn Awstria ac yn caniatáu i'r ysgol VET nid yn unig i gadw llygad ar leoliadau cyflogaeth eu graddedigion, ond hefyd helpu gyda lleoliadau gwaith a chyllid. Roedd ffocws ar ddarganfod ac annog cynnwys alwmni. Ar y naill law, maent yn awyddus i barhau'r cysylltiad rhwng y coleg a'r cyflogwr. Ar y llall, mae'r coleg yn dymuno derbyn cymorth ariannol gan unigolion a chyflogwyr. Mae'n glir bod diwylliant cryf o hunangymorth ar ran y sefydliad ac roedd yr adborth am y dull gweithredu mwy anffurfiol hwn i weld yn gadarnhaol. Mae'n ymddangos bod yr holl raddedigion, bron, yn mynychu'r digwyddiad cyntaf i alwmni ar ôl iddynt raddio. Mae digwyddiadau pellach yn cael eu cynnal bob pum mlynedd.

[43] OnTrack (2019) Prifysgol Dechnegol Košice. Ar gael yn: http://ontrack-project.eu/images/articles/ON_TRACK_IO1_CONTEXT_STUDY_OF_TRACKING_SYSTEMS_AND_MEASURES.pdf (Cyrchwyd 22 Hydref 2020).

Nododd y cyfwelai mai'r ffurf yw digwyddiad cymdeithasol dros gyfnod o benwythnos fesul dosbarth, gyda chysylltiadau cadarn yn cael eu sefydlu dros amser.

## 4.7 Gwlad Groeg

Yn ôl adroddiad Cedefop[44], mae VET yng Ngwlad Groeg yn cael ei reoleiddio'n drwm gan y wladwriaeth, a than yn ddiweddar, câi ei gynnig yn bennaf drwy'r ysgolion. Yn nwylo'r Weinidogaeth Addysg, Ymchwil a Materion Crefyddol, mewn cydweithrediad â'r Weinidogaeth Lafur, Nawdd Cymdeithasol ac Undod Cymdeithasol mae'r cyfrifoldeb cyffredinol. Mae'r adroddiad yn dod i'r casgliad bod angen amser ar yr ymdrechion hyn i esgor ar ganlyniadau pendant a chyrraedd eu llawn botensial, er bod Gwlad Groeg wedi dangos perfformiad da mewn sawl maes o ran llunio polisi VET, yn ogystal â gweithredu yn unol â chanllawiau a blaenoriaethau thematig strategol Ewrop.

Sefydliad Cenedlaethol Tystysgrifo Cymwysterau a Chanllawiau Galwedigaethol (EOPPEP), sef corff statudol hollgynhwysol sy'n buddsoddi mewn gwasanaethau dysgu gydol oes effeithlon a dibynadwy o ansawdd gwell, yw'r sefydliad sy'n cefnogi VET ar lefel genedlaethol yng Ngwlad Groeg. Mae'r sefydliad yn datblygu a gweithredu'r System Achredu a Thystysgrifo Genedlaethol ar gyfer addysg nad yw'n ffurfiol, gan gynnwys hyfforddiant galwedigaethol cychwynnol a pharhaus ac addysg i oedolion, ac mae'n darparu cymorth gwyddonol i wasanaethau Arweiniad Galwedigaethol a Chwnsela yng Ngwlad Groeg.

Fel y dangoswyd gan adroddiad 2017 y Comisiwn Ewropeaidd, mae Gwlad Groeg ymysg y gwledydd hynny lle mae modd dosbarthu cam datblygu mesurau o'r fath fel rhai ansystemataidd. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw fesurau ar gyfer olrhain graddedigion VET er y datblygwyd astudiaeth olrhain unigol yn 2015 ar gyfer graddedigion prentisiaethau, yn rhan o'r gwaith o ail-lunio'r gwasanaeth cyflogaeth cyhoeddus.

Fel y nodwyd yn adroddiad *OnTrack,* amlygodd sawl astudiaeth yr anghenraid i ddatblygu'r maes gwaith hwn ymhellach. O edrych yn ôl ar brosiectau ymchwil nodedig, ystyriwyd yr arolwg a gynhaliwyd gan KANEP-GSEE (Y Ganolfan Datblygu Polisi Addysg) yn 2013 gan Nikos Mouzelis, athro yn Ysgol Economeg Llundain (LSE) a chadeirydd KANEP-GSEE, fel yr ymchwil fwyaf systemataidd a manwl yn gysylltiedig ag addysg a galwedigaethau ar yr adeg honno. Dangosodd ymchwil a gynhaliwyd yn 2017 ar sail arolwg holiadur gan Patras PVTI (Giotopoulos, 2017) fod dewis o ran arbenigo wedi'i gysylltu'n agos â rhyw’r myfyrwyr. Cynhaliwyd arolwg ffôn unigol i bennu cyrchfannau graddedigion VET yn 2015. Llywiodd y prosiect hwn brosiect arall lle roedd EOPPEP yn gysylltiedig, i

[44] Gwlad Groeg: Astudiaeth olrhain graddedigion VET, gwefan CEDEFOP. Ar gael yn: https://www.Cedefop.europa.eu/en/news-and-press/news/greece-vet-graduate-tracking-study (Cyrchwyd 23 Medi 2020).

ddatblygu system olrhain VET ar gyfer Gwlad Groeg. Cynhaliwyd y prosiect hwnnw mewn cydweithrediad â'r Sefydliad Cenedlaethol dros Lafur ac Adnoddau Dynol (EIEAD) a helpodd i lywio datblygiadau diweddar[45].

Hefyd, esboniodd adroddiad *OnTrack* fod astudiaeth olrhain graddedigion VET newydd ar waith ar hyn o bryd yng Ngwlad Groeg gan EOPPEP. Mae'r prosiect yn canolbwyntio ar raddedigion rhaglenni VET ôl-uwchradd (IEK); ei nod yw darparu data ansoddol a meintiol am yr hyn mae graddedigion yn ei wneud ar ôl cwblhau eu hyfforddiant. Gan ddefnyddio dangosyddion ansawdd fel cyfradd leoli graddedigion VET a'r defnydd o sgiliau a gafaelwyd yn y gweithle, mae'r ymchwil yn dadansoddi sefyllfa graddedigion IEK yn y farchnad lafur. Mae hefyd yn mesur graddau bodlonrwydd graddedigion mewn perthynas â'r cwricwlwm a'u harbenigeddau ac yn ceisio barn cyflogwyr mewn perthynas â gwybodaeth, sgiliau a chymwyseddau graddedigion. Mae'r astudiaeth wedi'i seilio ar ymchwil ddesg a maes ac mae wedi'i chynnal mewn cydweithrediad â'r Sefydliad Cenedlaethol er Llafur ac Adnoddau Dynol (EIEAD). Dyma'r tro cyntaf i astudiaeth ar raddfa fawr gael ei chynnal ar y maes hwn yng Ngwlad Groeg, gyda 430 o gyflogeion a 4,780 o raddedigion[46] yn rhan ohoni. Yn dilyn cam peilot llwyddiannus yr astudiaeth olrhain graddedigion VET hon, cynhaliodd EOPPEP ail brosiect ymchwil rhwng 2019 a 2021 yn cynnwys 9,880 o gyfranogwyr. Y bwriad oedd datblygu mecanwaith olrhain graddedigion VET mwy cynhwysfawr a systemataidd, yn cysylltu anghenion y farchnad lafur â VET ar lefel genedlaethol. Nod yr astudiaeth oedd deall yn well sut i wella darpariaeth a chymwysterau VET.

Cadarnhaodd ymchwil *OnTrack* fod ymchwil gyfyngedig ar waith yn y maes gwaith hwn ar lefel darparwr. Cwblhaodd tîm ymchwil *OnTrack* arolwg o systemau olrhain VET a ddefnyddir gan ddarparwyr VET er mwyn casglu gwybodaeth am statws presennol dulliau gweithredu olrhain. Gwahoddwyd 811 o sefydliadau i gymryd rhan yn yr arolwg a derbyniwyd ymatebion gan 41 a ddangosodd nad oedd mesurau systemataidd ar waith. Dim ond 1 o'r 41 o sefydliadau oedd yn meddu ar system olrhain, a sefydlwyd yn 2014, a llai na 100 o fyfyrwyr y gellid eu holrhain yn rhinwedd gallu'r system[47].

---

[45] OnTrack (2019) Prifysgol Dechnegol Košice. Ar gael yn: http://ontrack-project.eu/images/articles/ON_TRACK_IO1_CONTEXT_STUDY_OF_TRACKING_SYSTEMS_AND_MEASURES.pdf (Cyrchwyd 22 Hydref 2020).

[46] Gwlad Groeg: Astudiaeth olrhain graddedigion VET, gwefan CEDEFOP. Ar gael yn: https://www.Cedefop.europa.eu/en/news-and-press/news/greece-vet-graduate-tracking-study (Cyrchwyd 23 Medi 2020).

[47] OnTrack (2019) Prifysgol Dechnegol Košice. Ar gael yn: http://ontrack-project.eu/images/articles/ON_TRACK_IO1_CONTEXT_STUDY_OF_TRACKING_SYSTEMS_AND_MEASURES.pdf (Cyrchwyd 22 Hydref 2020).

4.8 Datblygiadau mewn gwledydd eraill

Soniodd rhai o'r cyfweleion o'r sampl wreiddiol o wledydd am waith gwledydd Ewropeaidd eraill gan gynnwys y Ffindir, Croatia a Slofenia. Wrth i'n hymchwil fagu momentwm ac wrth i'r pandemig coronafeirws darfu ar y rhaglen waith, cynyddodd tîm yr astudiaeth y sampl er mwyn archwilio datblygiadau yn y gwledydd hyn.

Y Ffindir

Mae gan y Ffindir fesurau sefydlog a systemataidd yn eu lle ar lefel genedlaethol. Canmolodd nifer o gynrychiolwyr o'r sampl wreiddiol o wledydd a oedd wedi datblygu mesurau systemataidd y datblygiadau o'r Ffindir. Mae'n faes sydd wedi bod yn datblygu cig ar yr esgyrn ers 2001 ac mae wedi dod yn rhan annatod o'r system sicrhau ansawdd genedlaethol.

Yn unol â'r dulliau gweithredu a ddatblygwyd mewn gwledydd eraill fel Iwerddon, yr Iseldiroedd ac Awstria, mae gan asiantaeth ganolog, Statistics Finland, gyfrifoldeb am gasglu'r data a chyfuno gwahanol setiau data i ddarparu trosolwg cynhwysfawr o gyrchfannau ar gyfer yr holl raddedigion o sefydliadau VET. Mae'r data hwn yn cael ei gadw ar borth adrodd y weinyddiaeth addysg, *Vipunen.* Mae ystadegau *Vipunen* wedi'u seilio ar ddata a chofrestrau a gesglir gan Statistics Finland, y Weinyddiaeth Diwylliant ac Addysg ac Asiantaeth Genedlaethol y Ffindir ar gyfer Addysg. Mae'r Weinidogaeth Addysg a Diwylliant ac Asiantaeth Genedlaethol y Ffindir dros Addysg yn gyfrifol ar y cyd am gynnwys *Vipunen*. Mae *Vipunen* yn wefan agored o ystadegau a dangosyddion ar gyfer addysg mewn nifer o sectorau addysgol[48]. Mae'n darparu gwybodaeth am leoliad myfyrwyr ar ôl iddynt gwblhau eu hastudiaethau, ymchwil a gynhaliwyd mewn sefydliadau addysg uwch, strwythur addysgol y boblogaeth a chefndir economaidd-gymdeithasol myfyrwyr. Yn adran VET y wefan, mae modd cyrchu adroddiadau am leoliad addysg alwedigaethol. Mae adroddiadau am leoliad y rhai sy'n cwblhau addysg a hyfforddiant galwedigaethol yn darparu gwybodaeth ynghylch mynediad i gyflogaeth neu addysg bellach a gweithgareddau eraill y rhai sy'n cwblhau eu hastudiaethau, flwyddyn, tair blynedd a phum mlynedd ar ôl iddynt gymhwyso. Mae'r wybodaeth gynhwysfawr hon yn dangos y sectorau proffesiynol lle mae graddedigion VET yn gweithio.

Yn debyg i'r Iseldiroedd, caiff data gweinyddol meintiol ei ategu gan arolwg adborth myfyrwyr. Mae adborth myfyrwyr VET yn adlewyrchu barn myfyrwyr sy'n dilyn cymwysterau uwchradd uwch galwedigaethol, cymwysterau galwedigaethol pellach a chymwysterau neu uned(au) cymwysterau

[48]Ymhlith y sectorau mae: Pob lefel a sector, addysg cyn-cynradd a sylfaenol, addysg uwchradd uwch gyffredinol, addysg a hyfforddiant galwedigaethol, prifysgol addysg gwyddorau cymhwysol, addysg prifysgol, addysg uwch a gweithgarwch ymchwil a datblygu, a strwythur y boblogaeth, strwythur addysgol a strwythur galwedigaethol.

galwedigaethol arbenigol uwchradd am ddarpariaeth eu haddysg a'u hyfforddiant a'u heffeithiolrwydd. Cyflwynwyd yr arolwg adborth VET cenedlaethol ym mis Gorffennaf 2018 a chaiff y canlyniadau eu diweddaru ar drydydd diwrnod pob mis gyda data'n disgrifio'r sefyllfa ddeufis ynghynt. Mae dau gam sy'n cynnwys holiadur cychwynnol a holiadur terfynol adeg graddio. Mae'r prif ddata gweinyddol yn rhychwantu'r boblogaeth gyfan a chaiff ei ategu gan holiadur bodlonrwydd sy'n denu cyfradd ymateb o bron 100% ar gyfer yr arolwg cychwynnol ac oddeutu 60% ar ôl graddio.

Caiff yr adborth ei gasglu gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant galwedigaethol sydd wedi'u hawdurdodi gan y Weinidogaeth Addysg a Diwylliant i ddarparu addysg. Mae'r adborth yn ddienw a chaiff y canlyniadau eu hadrodd pan fydd o leiaf bum ymatebydd yn y grŵp targed dethol. Esboniodd cyfweleion fod hon yn broses gynhwysfawr er ei bod yn werth nodi nad yw rhai grwpiau myfyrwyr yn cymryd rhan yn yr arolwg adborth VET. Mae’r rhain yn cynnwys myfyrwyr:

- sy'n cymryd rhan mewn addysg baratoawl ar gyfer hyfforddiant galwedigaethol (VALMA)
- sy'n cwblhau addysg baratoawl ar gyfer gwaith a byw'n annibynnol (TELMA)
- sy'n dilyn modiwlau sy'n llai helaeth nag unedau cymwysterau
- sy'n cymryd rhan mewn addysg a hyfforddiant galwedigaethol arall
- sy'n dilyn y cymhwyster neu uned(au) y cymhwyster drwy arddangos cymhwysedd.

Yn wahanol i wledydd eraill, mae'r canlyniadau'n gysylltiedig â'r cyllid a ddyrennir i'r sefydliadau. Mae'r adroddiadau a gynhyrchir yn arwyddocaol am eu bod yn effeithio ar gyllid ar gyfer darparwyr VET. Yn y Ffindir, mae darparwyr yn derbyn 50% o gyllid craidd ac mae 35% pellach o gyllid wedi'i seilio ar berfformiad, gyda 15% wedi'i seilio ar fodlonrwydd myfyrwyr a bodlonrwydd gyda bywyd gwaith. Yn rhan o'r ffigyrau hyn, mae hyd at 4% o'r cyllid ar gyfer datblygu dull gweithredu strategol y darparwr.

<u>Croatia</u>

Er nad oes system olrhain genedlaethol ar hyn o bryd yn Croatia, mae'r Asiantaeth Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol ac Addysg i Oedolion (ASSO) yn gysylltiedig â chynllun peilot i gasglu data ar gyrchfannau graddedigion. Mae'r cynllun peilot hwn wedi'i seilio ar argymhelliad EQAVET ac mae'n un o amcanion y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer VET yn 2016-20. Cymerodd tair ysgol VET ran yn y cylch cyntaf ac roedd saith yn ail gylch y prosiect.

Yn rhan o'r cynlluniau peilot hyn, anfonodd ASSO holiaduron at ddarparwyr VET sy'n gyfrifol am gynnal arolwg i gasglu data cyrchfannau graddedigion. Mae'r fethodoleg ar gyfer cynnal yr arolygon yn nwylo darparwyr VET i arfer eu disgresiwn, gyda gwahanol ddulliau gweithredu'n cael eu defnyddio, gan gynnwys e-bost, WhatsApp a galwadau ffôn i gwblhau holiadur ar-lein. Cynhelir y prif arolwg ar ôl graddio ac mae'n casglu data ansoddol yn bennaf, ar sail hunanasesiad myfyrwyr. Caiff rhywfaint o ddata meintiol hefyd, fel cyrchfan, h.y. cyflogaeth neu addysg bellach, ei gasglu hefyd.

Cyflwynwyd arolwg ymadael yn rhan o'r ail gynllun peilot ac mae'r adborth yn awgrymu bod hwn yn llawer haws ei weinyddu. Denodd gyfradd ymateb dda, hefyd. Casglodd yr arolwg hwn ddata cymdeithasol-ddemograffig, gwybodaeth am ddyheadau dysgwyr ac a yw'r dysgwr yn fodlon cymryd rhan yn y brif astudiaeth ar ôl iddynt adael eu rhaglen VET. Roedd yr astudiaeth yn cynnwys asesu sut roedd cymwyseddau yn ystod eu rhaglen VET yn eu paratoi ar gyfer byd gwaith ac ateb anghenion eu cyflogwyr.

Mae'r canfyddiadau cychwynnol yn awgrymu bod yr astudiaeth wedi bod yn llwyddiant. Roedd y gyfradd ymateb i'r arolwg yn amrywio o 30% i 70% rhwng gwahanol ddarparwyr. Datblygodd arbenigwr allanol yr holiadur a dadansoddodd y canlyniadau i sicrhau cywirdeb ystadegol - gwelwyd bod hyn yn nodwedd bwysig o'r fethodoleg. Roedd y rôl ganolog a chwaraeodd ASSO o ran gweinyddu a choladu'r dystiolaeth hefyd yn bwysig.

Slofenia

Mae Slofenia yn cynllunio system olrhain graddedigion VET gyda Sefydliad Gweriniaeth Slofenia yn ystyried sut i ddatblygu mesurau gan ddefnyddio Galwad Gyfyngedig bresennol EQAVET. Mae Slofenia yn rhan o weithgor gyda'r Ffindir, Croatia a Gwlad Groeg yn cynnal gweithgareddau fel seminarau ac ymweliadau astudio ar olrhain graddedigion. Er bod pob gwlad yn datblygu, neu wedi datblygu, mesurau olrhain yn annibynnol, mae cynrychiolwyr o'r gwledydd hyn yn rhannu arfer gorau. Er nad yw methodoleg y dyfodol wedi'i phenderfynu eto, mae'r trafodaethau'n awgrymu mai dull gweithredu cymysg fydd y ffordd orau ymlaen gyda data cenedlaethol yn cael ei gyfuno gyda data ar lefel y darparwr VET unigol. Y nod yw datblygu mesurau olrhain hyd at ddwy flynedd ar ôl graddio. Mae hyn yn debygol o ddechrau gydag arolwg meintiol oddeutu chwe mis ar ôl graddio er mwyn darganfod cyrchfannau dysgwyr a set fwy ansoddol erbyn yr ail flwyddyn i gael data am ddangosydd EQAVET 6 (Defnyddio Sgiliau a Gaffaelwyd). Mae'n werth nodi bod rhai darparwyr VET yn olrhain eu graddedigion ar hyn o bryd ond nad yw hyn yn arfer helaeth.

# 5. Asesu'r mesurau a'r dulliau gweithredu

Mae datblygu a darparu gwahanol ddulliau gweithredu wedi rhoi cyfle i'r bobl dan sylw roi cynnig ar ffyrdd o weithio, myfyrio am yr hyn sydd wedi gweithio'n dda ac ystyried a allai fod angen unrhyw fireiniadau. Yn rhan o'n hymchwil, archwiliodd tîm yr astudiaeth gryfderau a chyfyngiadau'r dulliau gweithredu a ddefnyddiwyd ar lefel genedlaethol ac ar lefel darparwr.

At ei gilydd, disgrifiodd y cyfweleion ddull mwy cyson o gasglu data mewn gwledydd fel yr Iseldiroedd, Iwerddon, y Ffindir ac Awstria lle roedd mesurau systematig wedi'u cyflwyno. Mae'r gallu i dynnu ar setiau data cyson ar lefel genedlaethol wedi bod yn ddatblygiad sylweddol ac, yn ôl llawer, wedi gwella ansawdd y mewnwelediad. Fel yr amlygwyd gan gynrychiolydd o Iwerddon, "Does dim cwestiwn o gwbl i allu pennu ble mae rhywun ar unrhyw bwynt penodol. Gall fod yn union, union gywir. Mae'n dda gwybod a yw rhywun wedi'i gyflogi neu beidio.” Amlygwyd hyn fel un o brif gryfderau'r dull gweithredu systemataidd.

Nododd cyfranwyr at ein hastudiaeth hefyd fod argaeledd data cenedlaethol yn darparu sylfaen ddibynadwy ar gyfer ymchwil bellach. Mewn rhai achosion, amlygodd dull gweithredu systemataidd anghysonderau yn y canfyddiadau rhwng data gweinyddol a data arolwg. Mewn un enghraifft, adroddodd arolwg ffigur cyflogaeth 11% yn uwch o'i gymharu â data o ffynonellau gweinyddol. Roedd cred gadarn felly yn y gwledydd lle roedd, neu lle roedd wedi bod dulliau gweithredu dull cymysg, bod data gweinyddol a'r defnydd o fesurau systemataidd wedi helpu i ddarparu darlun mwy cywir. Mae'r gwledydd hyn, gan amlaf, hefyd yn gallu olrhain cynnydd dros amser. Soniodd cynrychiolwyr o wahanol wledydd am fanteision archwilio materion neu feysydd diddordeb arbennig unwaith i'r sefyllfa waelodlin gael ei llunio a phan oedd tueddiadau clir yn dod i'r amlwg. Soniodd cyfranwyr am bwysigrwydd archwilio themâu fel cynhwysiant cymdeithasol.

Er ei bod yn galonogol gweld bod sefydliadau'n defnyddio'r data cenedlaethol, roedd llawer o enghreifftiau (e.e. yn yr Iseldiroedd a Sbaen) lle gellid gwneud gwelliannau wrth ledaenu a defnyddio'r canfyddiadau. I'r nifer fach o ddarparwyr VET sy'n gwneud defnydd o ddata cenedlaethol, roedd y dull gweithredu systemataidd yn amlwg yn cyfrannu at y gwaith o wneud penderfyniadau. Yn ôl ychydig o'r darparwyr VET, roeddent yn awyddus i wybod a oedd eu cyrsiau yn ateb anghenion myfyrwyr a chyflogwyr. Mae ymchwil o wledydd (e.e. yr Iseldiroedd lle caiff data ei gyhoeddi dri mis ar ôl ei ddadansoddi) sy’n defnyddio data gweinyddol a data arolwg cenedlaethol yn dangos bod darparwyr yn gallu olrhain cynnydd dysgwyr dros amser.

Er gwaethaf y manteision ysgubol o fabwysiadu mesurau cenedlaethol a systemataidd, amlygodd cyfweleion hefyd nifer o gyfyngiadau. Nododd rhai arsylwyr fod y data cenedlaethol yn anaml ac ar lefel uchel, e.e. yn yr Iseldiroedd, Iwerddon ac Awstria. Esboniodd cynrychiolwyr o ddau sefydliad partner y byddai angen iddynt ofyn rhagor o gwestiynau er mwyn gwneud y defnydd gorau o ddata olrhain. Am ei bod yn anodd newid y dull gweithredu cenedlaethol, gallai fod angen i sefydliadau VET ategu'r dull gweithredu gyda dulliau eraill fel arolygon e.e. roedd gan gynrychiolydd o un corff proffesiynol yn Iwerddon ddiddordeb yng ngalwedigaeth graddedigion a oedd yn dilyn eu cyrsiau.

Mae perygl y gallai ceisio ategu dulliau sy'n bodoli gyda gwahanol ddulliau gweithredu ar lefel darparwr arwain at ddyblygu ymdrechion. Mae hyn yn rhywbeth a amlygwyd gan gyfweleion o'r Iseldiroedd. Nodwyd hefyd ganddynt y gallai hyn fod yn digwydd eisoes gydag arolygon cenedlaethol. Yn ôl un cyfwelai, cynhelir yr Arolwg Ymadawyr Ysgol CBS/ROA ymhell dros flwyddyn ar ôl graddio a chynhelir Arolwg Alwmni Cymdeithas colegau VET yr Iseldiroedd ddwy flynedd ar ôl graddio. Mae hyn yn creu risg bod ymadawyr ysgol ac alwmni'n destun arolwg ddwywaith, ac yn ôl rhai cyfranogwyr yn ein hymchwil, mae'n dangos pwysigrwydd dilyn dull gweithredu cydgysylltiedig a chenedlaethol lle mae hynny'n bosibl.

Un o brif bryderon y cyfranogwyr yn ein hymchwil oedd y gallu i dynnu ar ddata cymaradwy i olrhain perfformiad darparwyr am y gallai hyn arwain at gystadleuaeth rhwng darparwyr. Mae hyn yn rhywbeth sy'n digwydd yn y Ffindir. Nododd llawer o randdeiliaid o Gymru bod hyn yn nodwedd yn y sector addysg uwch yng Nghymru. Roedd awgrym y dylid ystyried sut caiff y data ei ddefnyddio a'i rannu. Roedd yn ddiddorol clywed bod yr ETBs yn Iwerddon yn wreiddiol am i'r data gael ei gynnig ar lefel darparwr ond bod SOLAS wedi penderfynu yn erbyn dull gweithredu o'r fath. Esboniodd un aelod o dîm SOLAS, "Pan roeson ni'r data [yr ETBs] iddynt, roedd yn rhaid i ni lofnodi 16 o gytundebau eraill i ddweud na fydden ni'n rhannu eu data gydag ETB arall." Mae'n werth cydnabod bod yr heriau'n gysylltiedig â chasglu a rhannu data a bod y prosesau hyn yn pennu math a lefel y data sydd ar gael ar gyfer partneriaid. Roedd diogelu data yn thema a drafodwyd gan y rhan fwyaf o gyfweleion.

Er gwaethaf y llu o fanteision cadarnhaol yn gysylltiedig â mesurau systemataidd, mae'n werth amlygu bod bylchau mewn gwybodaeth yn parhau, e.e. esboniodd y rhai hynny sy'n gysylltiedig â'r broses yn yr Iseldiroedd nad oedd ganddynt wybodaeth am fyfyrwyr VET sy'n gweithio nac ar leoliadau ym myd diwydiant. Er bod y rhai hynny sy'n gysylltiedig â'r maes gwaith hwn yn edrych yn gyson am ffyrdd o wella prosesau, derbyniwyd yn gyffredinol na allai'r mesur byth fod yn ddigon effeithiol i goladu gwybodaeth gan yr holl raddedigion VET.

Tabl 1: Cryfderau a chyfyngiadau mesurau cenedlaethol, systemataidd

| Cryfderau | Cyfyngiadau |
| --- | --- |
| • Data cyson.<br>• Data cymharol.<br>• Mwy o fewnwelediad.<br>• Sail i allu ymgymryd ag ymchwil bellach.<br>• Gallu olrhain cynnydd dros amser.<br>• Cefnogi gwaith gwneud penderfyniadau gwybodus.<br>• Cyfrannu at newid diwylliant lle mae sefydliadau partner yn ystyried dull gweithredu ar sail tystiolaeth.<br>• Mae prosesau sefydlog yn arwain at adrodd mwy effeithlon. | • Mae data'n anaml.<br>• Mae data yn ddata lefel uchel.<br>• Nid yw data ar gael eto ar lefel y darparwr VET unigol.<br>• Nid yw data ar gael ar gyfer yr holl ddysgwyr VET.<br>• Mae'r dull o gyflwyno data'n gymhleth.<br>• Gweithio gyda data dienw.<br>• Newidynnau/setiau data cyfyngedig.<br>• Yr wybodaeth sydd ar gael i'w rhannu gyda sefydliadau partner.<br>• Dibyniaeth ar y Swyddfa Ystadegau Ganolog. |

Defnyddiwyd data arolwg yn gyffredin ar lefelau cenedlaethol a darparwr i olrhain cynnydd graddedigion VET. Mae nifer o fanteision i ddefnyddio holiaduron ar gyfer olrhain graddedigion ac amlygwyd y rhain yn rhan o'r astudiaeth hon. Mae holiaduron yn eithaf hawdd eu cynnal ac maent wedi caniatáu i'r sefydliadau gael hyd i lawer o wybodaeth gan nifer fawr o ymatebwyr. Mae hyn hefyd yn ffordd effeithiol o sicrhau cwmpas eang, gyda modd o gyrraedd ymatebwyr lleol, cenedlaethol a rhyngwladol yn hawdd. At hynny, mae cynnal ymchwil drwy holiaduron yn cymryd llawer llai o amser a gall ymatebwyr ddarparu eu hymatebion ar adeg gyfleus. Trafododd cyfweleion sut gallent deilwra'r holiadur i ateb eu hanghenion, gan sicrhau bod diben clir i'r prosesau olrhain a oedd yn ychwanegu gwerth. Trafododd mwyafrif y cyfweleion y gallu i gasglu adborth ansoddol er mai un o gryfderau'r holiadur yw ei fod yn gallu darparu data meintiol.

Archwiliodd ein hastudiaeth y dulliau gweithredu a ddefnyddiwyd ar lefel darparwr a sut roedd y sefydliadau'n gweinyddu'r broses e.e. drwy waith tiwtoriaid. Ar y naill law, nododd ein cyfweleion fod myfyrwyr yn fwy tebygol o ymateb i bobl roeddent yn eu hadnabod, na sefydliad trydydd parti. Roedd hyn, yn ôl cyfweleion, yn helpu i gynyddu'r gyfradd ymateb. Yn gyferbyniad, fodd bynnag, ystyriwyd bod y dull gweithredu yn drwm ar adnoddau ac yn drwm ar amser i'r personél dan sylw. Esboniodd cyfweleion y byddent wedi gwerthfawrogi gwaith gweinyddol neu amser dynodedig ychwanegol yn ystod y flwyddyn i wneud y gwaith.

Trafododd rhai a gymerodd ran yn ein hymchwil fanteision defnyddio grwpiau LinkedIn i wneud olrhain graddedigion yn haws. Fodd bynnag, mae'n bosibl nad yw adborth gan ddysgwyr yn

ddibynadwy ac mae hyn yn arwain at gwestiynau am ddilysrwydd y dull gweithredu hwn. Nododd rhai cyfranogwyr y gallai disgwyliadau'r cyfwelydd neu farn dysgwyr unigol amharu ar eu gwrthrychedd wrth ddadansoddi adborth ansoddol gan ddysgwyr. Mae adroddiad Tracktion yn awgrymu y gallai arolwg ar-lein wedi'i ddilyn gan gyfweliadau dros y ffôn gyda'r rhai a oedd heb ymateb ychwanegu gwerth. Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod y gallai cyfweleion ymateb yn wahanol i bersonoliaeth neu gefndir cymdeithasol y sawl sy'n cyfweld â nhw. Yn ogystal, gall diffyg ymddiriedaeth a bod yn or-gyfarwydd effeithio ar ddibynadwyedd a chywirdeb cyfwelwyr. Mae mater gogwydd mewn ymchwil ansoddol yn un pwysig, ac mae'n mynnu sylw a thrafodaeth arbennig. Roedd hyn yn amlwg yn ystyriaeth yn Croatia lle cefnogodd arbenigwr allanol ddarparwyr VET i ymgymryd ag ymchwil o'r fath gyda'r dysgwyr VET.

Tabl 2: Cryfderau a chyfyngiadau arolygon dan arweiniad darparwyr

| Cryfderau | Cyfyngiadau |
|---|---|
| • Cyfle i deilwra'r holiadur yn ôl anghenion y sefydliad/rhaglen.<br>• Gellid preimio cyfranogiad mewn arolygon ar ôl graddio tra bod myfyrwyr yn y coleg drwy arolygon cychwynnol a chytuno i gyfranogi ar ôl gadael.<br>• Mae myfyrwyr yn fwy tebygol o ymateb i bobl maent yn eu hadnabod (e.e. tiwtoriaid cyrsiau) na sefydliadau trydydd parti.<br>• Posibl cael cyfradd ymateb uwch.<br>• Archwilio llawer o themâu a gwybodaeth.<br>• Proses gymharol rad.<br>• Hawdd ei gynnal.<br>• Cwmpas eang ar draws gwahanol grwpiau rhanddeiliaid.<br>• Cyfeillgar i ddefnyddwyr.<br>• Llai beichus o ran amser i'r defnyddiwr terfynol. | • Posibilrwydd o ogwydd i'r ymatebion - gellid lleihau hyn drwy ymatebion dienw a holiaduron ar-lein.<br>• Dwys ar adnoddau.<br>• Proses feichus o ran amser, yn arbennig ar gyfer y tiwtoriaid sy'n cyfweld.<br>• Gallai'r ddolen i'r polisi fod ar goll.<br>• Dim esboniad ar gyfer cwestiynau amwys.<br>• Gallai ymatebwyr ddehongli cwestiynau mewn ffyrdd nad oedd yr ymchwilwyr wedi'u bwriadu gan arwain at wybodaeth amherthnasol. |

Yn ogystal â'r dulliau ffurfiol a oedd ar waith gan ddarparwyr VET, tynnodd ein trafodaethau sylw at ddulliau anffurfiol, gan gynnwys pwysigrwydd sefydlu a chynnal cysylltiadau cryf â sefydliadau e.e.

siambrau, cynghorau sgiliau sector, a chyrff cyflogwyr megis y cysylltiadau sydd wedi'u datblygu yn Awstria. Mae ein hymchwil yn awgrymu bod y dull gweithredu hwn naill ai yn *ad hoc* neu wedi'i strwythuro drwy ddigwyddiadau alwmni. Nid oedd digon o dystiolaeth i awgrymu y gallai cysylltiadau o'r fath gofnodi cynnydd a chyrchfannau graddedigion VET yn ffurfiol. Yn hytrach, ystyriwyd bod y dull gweithredu yn ffordd effeithiol o gadw mewn cysylltiad â graddedigion. Caniataodd hefyd i gynrychiolwyr o amrywiol sefydliadau ddeall rhai o'r materion a'r heriau'n gysylltiedig â byd gwaith yn well.

# 6. Gwersi allweddol ac ystyriaethau at y dyfodol

Roedd y gallu i drafod y dystiolaeth a negeseuon allweddol gan y rhai hynny â phrofiad o olrhain graddedigion VET mewn gwahanol wledydd Ewropeaidd gyda chynrychiolwyr o'r sector AB yng Nghymru yn elfen allweddol o'r astudiaeth hon. Roedd cynrychiolwyr o Ewrop yn gallu trafod eu barn am berfformiad y mesurau sydd yn eu lle a chynnig myfyrdodau am wersi a ddysgwyd, meysydd i'w gwella, ac opsiynau ar gyfer darparu yn y dyfodol.

Drwy weithio'n agos â'n rhanddeiliaid yng Nghymru, roeddem yn gallu rhoi ein meddylfryd ar brawf a sicrhau bod unrhyw wersi neu ystyriaethau at y dyfodol yn ymarferol ac yn ystyried y dirwedd AB nawr ac yn y dyfodol. Mae hyn yn bwysig wrth ddatblygu a gweithredu polisi olrhain graddedigion VET newydd. Mae'r bennod hon yn amlygu'r gwersi a'r ystyriaethau sy'n codi o'n trafodaethau.

### Mae tystiolaeth yn parhau i fod yn bwysig mewn byd sy'n prysur newid

Dechreuodd yr astudiaeth ym mis Ebrill 2019, ar adeg pan oedd Cymru a'r DU yn rhan o'r UE. Daeth i ben ym mis Mawrth 2021, ar ôl i'r DU adael marchnad sengl yr UE a'r undeb tollau. Mae llawer wedi newid yng Nghymru, y DU ac Ewrop yn ystod y cyfnod hwn. Roedd ein hastudiaeth wedi'i seilio ar bolisi a gweithgarwch Ewropeaidd, ar adeg pan oedd ansicrwydd ynghylch cyfranogiad Cymru mewn prosiectau olrhain graddedigion Ewropeaidd VET. Roedd yr ansicrwydd hwn yn amlwg yn ystod ein trafodaethau gyda rhanddeiliaid o Gymru ar ddiwedd cyfnod ymgynghori'r rhaglen waith.

At hynny, mae'r pandemig coronafeirws wedi gosod ergyd drom ar wledydd o amgylch y byd ac mae'r effaith wedi cyrraedd dyfnderoedd ein bywydau - mae wedi effeithio ar iechyd, incwm, sicrwydd swyddi a chysylltiadau cymdeithasol pobl. Mae'r pandemig yn peri heriau economaidd difrifol, gyda'r crebachu economaidd byd-eang yn digwydd ar gyfradd lawer cyflymach na'r disgwyl. Mae wedi effeithio ar bob sector economaidd a llawer o gyflogwyr mwyaf y byd. Ar ben yr ystyriaethau macro sy'n gysylltiedig â Brexit a'r pandemig coronafeirws, mae Cymru a'r DU yn ymgodymu â datblygiadau mewn technoleg, poblogaeth sy'n heneiddio, bwlch cynhyrchiant a symudedd cymdeithasol isel.

Cydnabu cynrychiolwyr AB bwysigrwydd colegau fel sefydliadau angori cymunedol sy'n helpu cymdeithas i ymateb i heriau o'r fath. Roeddent yn teimlo'n hyderus bod y sector colegau'n gallu bod yn arloesol ac yn ymateb i ystod o anghenion sy'n dod i'r amlwg nad yw dysgwyr fel arfer yn dod ar eu traws. Credant hefyd fod y sector colegau mewn sefyllfa i ymateb i heriau annisgwyl. Er mwyn ychwanegu gwerth nawr ac yn y dyfodol, cydnabu rhanddeiliaid AB fod yn rhaid iddynt ddeall anghenion myfyrwyr a'r ffordd y gallant helpu i adfer a chryfhau economi Cymru. Fel y dywedodd un

cynrychiolydd, "Rydyn ni bob amser yn edrych ar ddilyniant a'r hyn sy'n digwydd i'n dysgwyr." Teimlwyd yn gyffredinol y bydd y gallu i ddehongli data olrhain graddedigion VET a'i ddefnyddio i lywio penderfyniadau strategol o fudd i ddysgwyr VET a'r sector, ac yn darparu budd i'r cyhoedd drwy ychwanegu gwerth i gymdeithas a'r economi. Mae'n ymddangos bod yr awch am ddata gwell, gyda ffocws arbennig ar ddeilliannau, wedi cynyddu dros amser. At hynny, mae'r heriau sylweddol mae angen i'r sector AB a Chymru gyfan fynd i'r afael â nhw wedi dwysáu'r angen am fwy o dystiolaeth a thystiolaeth well.

### Mae'r sector colegau'n derbyn yn eang y cynnydd a wnaed gan Lywodraeth Cymru ond mae rhai meysydd y mae angen ystyriaeth bellach arnynt

Fel yr amlygwyd ym Mhennod 3 o'r adroddiad hwn, dim ond data cyrchfan ar gyfer Hyfforddeiaethau roedd adroddiadau canlyniadau dysgwyr blaenorol yn ei gynnwys. Mae mesurau perfformiad cyson Llywodraeth Cymru a gyflwynwyd yn 2018 wedi cynnwys data cyrchfan ar ddysgwyr sy'n symud ymlaen i AB neu gyflogaeth. Mae'r mesur cyrchfan hwn yn cael ei ddatblygu gan ddefnyddio cofnodion addysg a chyflogaeth sydd wedi'u cyfateb drwy gyfranogiad yn Astudiaeth Deilliannau Addysg Hydredol (LEO) Llywodraeth y DU.

Yn gyffredinol, croesawodd cynrychiolwyr AB ddull gweithredu mwy systemataidd Llywodraeth Cymru tuag at olrhain graddedigion VET. Rhoddwyd sicrwydd i'r rhanddeiliaid o Gymru bod y camau a gymerwyd drwy ddadansoddi data gweinyddol yn unol ag arferion gwledydd eraill e.e. yr Iseldiroedd, Iwerddon ac Awstria. Codwyd pryderon am ansawdd data a'r amser mae'n ei gymryd i ddenu ymatebion dysgwyr. Trafododd un cynrychiolydd, er enghraifft, gyfansoddiad cymhleth coleg AB mewn cymhariaeth â chweched dosbarth nodweddiadol ysgol a chwestiynwyd dilysrwydd cyhoeddiad a oedd yn rhychwantu darpariaethau ôl-16 o bob math.

Nododd un cynrychiolydd AB ei bod yn anodd cysoni'r data cyrchfan gyda data'u sefydliad, e.e. nid oedd yn bosibl rhestru'r myfyrwyr a oedd wedi cwblhau unrhyw arolwg a'u cyrchfan ac arweiniodd hyn at bryderon a oedd arolwg yn cynrychioli'r holl ddysgwyr. Cwestiynodd cynrychiolwyr AB hefyd y diffiniad o ddeilliant cadarnhaol ac awgrymwyd bod y broses yn "llawn amwysedd." Nodwyd y byddai myfyriwr a oedd wedi methu ei gymhwyster neu wedi ymadael â'r coleg ond wedi cael cyflogaeth a thalu trethi am chwe mis yn cyfrif fel deilliant cadarnhaol. Mewn cyferbyniad, ni ystyriwyd bod myfyriwr a oedd wedi ennill cymhwyster a symud i swydd wirfoddol yn rhan o flwyddyn i ffwrdd yn llwyddiant. Yn ôl Llywodraeth Cymru, diffinnir ‘cyflogaeth barhaol’ fel dysgwyr sydd mewn cyflogaeth â thâl fel y’i cofnodir ar gofnodion Talu Wrth Ennill (PAYE) am o leiaf un diwrnod y mis mewn pump o'r chwe mis rhwng mis Hydref a mis Mawrth yn y flwyddyn academaidd ganlynol, neu wedi dychwelyd

ffurflen hunanasesu yn nodi eu bod wedi derbyn incwm o hunangyflogaeth yn ystod y flwyddyn ariannol honno[49]. Yn rhifyn mis Ebrill 2020 o'r Datganiad Ystadegol Cyntaf, nododd Llywodraeth Cymru fod yr adborth yn dilyn y datganiad cyntaf yn y gyfres hon yn awgrymu y gallai'r defnydd o'r gair 'cadarnhaol' yn y categorïau mesur ddiystyru deilliannau sy'n gadarnhaol i unigolyn, fel gwirfoddoli neu ddod yn rhieni, ond i'r gwrthwyneb, gallai gasglu deilliannau llai ffafriol (fel cyflogaeth ar gontract dim oriau)[50].

Mae'r sylwadau hyn yn awgrymu bod cynrychiolwyr AB yn fodlon ar rai datblygiadau fel adroddiadau cenedlaethol a oedd yn dadansoddi'r radd a gyflawnwyd gan ddysgwyr. Fodd bynnag, byddent hefyd am gael adroddiadau tebyg a oedd yn dadansoddi'r gwerth a ychwanegwyd gan ddarparwyr VET unigol. Nodwyd bod adolygiad o fesurau perfformiad cyson Llywodraeth Cymru i fod i gael ei gynnal yn 2020 ond bod yr amhariad a achoswyd o ganlyniad i'r pandemig coronafeirws wedi effeithio ar y rhaglen waith.

### Cyfle i gyfoethogi a chryfhau ffynonellau eilaidd

Er gwaethaf datblygiadau diweddar, mae heriau'n gysylltiedig â nodi mesurau cadarn i ddefnyddio'r "data lefel uchel iawn" a ddarperir gan Lywodraeth Cymru. Y farn gyffredinol oedd bod data Llywodraeth Cymru'n darparu rhan o'r stori ond bod angen gwaith pellach i gyfoethogi'r dystiolaeth sydd ar gael. Mae gwaith datblygu pellach ar y gweill i ymestyn darpariaeth data i gynnwys mwy o wybodaeth am y math o gyflogaeth a sector, a chreu cysylltiadau i gwrs astudio pob dysgwr. Mae'r datblygiadau hyn yn debyg i'r rhai sy'n digwydd mewn gwledydd eraill - mae cyfle i addasu dull gweithredu Cymru neu ymgymryd â dadansoddi pellach i wneud y mwyaf o werth data olrhain graddedigion.

### Ateb anghenion a heriau sefydliadau, myfyrwyr a chyflogwyr

Mae angen sicrhau perthnasedd, ansawdd ac effeithiolrwydd darpariaeth ddysgu a pharatoi dysgwyr i wneud dewisiadau gwybodus. Gallai data cywir, dilys a dibynadwy wella perfformiad darparwyr dysgwyr a hysbysu rhanddeiliaid am ymddygiadau ac anghenion pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth.

Cadarnhaodd cynrychiolwyr AB o Gymru'r pwyntiau hyn a thrafodant fanteision defnyddio data olrhain graddedigion. Fel y nododd un cynrychiolydd, "Mae data deilliannau'n bwysicach i ddarpar

---

[49] Cwestiynau a Ofynnir yn Aml (Medi 2020) Llywodraeth Cymru.
[50] Datganiad Ystadegol Cyntaf. (2 Ebrill 2020) Llywodraeth Cymru. Ar gael yn: https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2020-04/consistent-performance-measures-post-16-learning-learner-destinations-august-2016-july-2017-302.pdf (Cyrchwyd 22 Hydref 2020).

ddysgwyr - fwy nag y mae i unrhyw un arall. Rydych chi am wybod beth rydych chi'n debygol o allu ei wneud ar ddiwedd unrhyw raglen." Esboniodd cynrychiolwyr eraill y byddai'n ddefnyddiol gwybod a yw cyrsiau'n arwain at gyfleoedd amser llawn neu ran-amser, y cyflogau cyfartalog yn ôl y math o swydd a sector. Teimlant eu bod yn bwysig hysbysu myfyrwyr o'r hyn y gallent ei ddisgwyl a'r hyn y gallent ei gyflawni. Roedd cydnabyddiaeth nad yw rhai cymwysterau'n uniongyrchol gysylltiedig ag un alwedigaeth ac y gallai cyrsiau fod yn llwybr uniongyrchol i gyflogaeth (neu beidio). Cwestiynodd rhai cynrychiolwyr a fyddai'r pandemig coronafeirws yn gorfodi sefydliadau VET i baratoi myfyrwyr yn wahanol. Trafododd rhai cynrychiolwyr eu bwriad i gynnal grwpiau ffocws gyda chyflogwyr o wahanol sectorau i helpu i lywio cynnig y coleg.

Roedd rhanddeiliaid AB yng Nghymru am osgoi'r model a ddatblygwyd yn y Ffindir lle câi data deilliannau ei rannu'n gyhoeddus, a oedd wedi annog cymariaethau rhwng perfformiad sefydliadau VET. Roedd yn well ganddynt system a oedd yn pwysleisio pwysigrwydd creu darlun gwell o ansawdd y ddarpariaeth er mwyn i sefydliadau allu cefnogi datblygiad eu myfyrwyr ymhellach. Er enghraifft, disgrifiodd rhai cynrychiolwyr sut yr hoffent ddefnyddio tystiolaeth i gymharu lefelau dilyniant rhwng gwahanol raglenni, sectorau a lefelau cymwysterau. Byddai hyn yn helpu i sicrhau bod anghenion dysgu pob myfyriwr yn cael eu hystyried. Byddai data gwell yn helpu darparwyr VET i ystyried pam nad oedd grwpiau penodol o ddysgwyr yn gwneud cynnydd. Pwysleisiodd rhanddeiliaid hefyd bwysigrwydd y cyd-destun lleol roedd sefydliadau VET yn gweithredu ynddo. Roedd hyn yn ystyriaeth bwysig mewn unrhyw waith yn y dyfodol ar ddatblygu a gweithredu polisi.

### Mae ansawdd ac amseru'r data'n bwysig

Cadarnhaodd rhanddeiliaid AB fod ansawdd y data olrhain graddedigion yng Nghymru wedi gwella er bod rhai ymatebwyr yn ochelgar o ran defnyddio'r dystiolaeth. Roedd y sylw canlynol yn nodweddiadol: "Mae cwpwl o setiau data wedi'u cyhoeddi erbyn hyn, ac maen nhw'n iawn. Maent yn defnyddio darnau o wybodaeth eithaf cymhleth; wedi gwneud dechrau rhesymol, lefel eithaf uchel, felly nid oes modd eu harchwilio'n ofalus."

Yn ogystal â'r angen i roi'r data yn ei gyd-destun, cwestiynodd rhai ymatebwyr ddilysrwydd defnyddio data sy'n ddwy oed. Cadarnhawyd hyn gan gyfranwyr at ein hastudiaeth drwy esbonio bod yr economi genedlaethol a lleol mewn cyflwr o newid di-baid, gyda'r pandemig coronafeirws yn arbennig yn debygol o arwain at newidiadau ysgytwol. Mae'r dystiolaeth o Ewrop yn awgrymu bod gwledydd lle mae mesurau systemataidd sefydlog wedi dod yn fwy effeithlon wrth ddadansoddi eu data dros amser. Mae hyn, at ei gilydd, wedi caniatáu i sefydliadau ryddhau data'n amserol. Roedd hyn yn ffactor pwysig yn llwyddiant y modelau hyn, e.e. yn yr Iseldiroedd.

## Byddai arweiniad pellach i'r sector AB am gasglu data yn ychwanegu gwerth

Am fod yr astudiaeth hon wedi ceisio mynd i'r afael â her benodol i'r sector AB yng Nghymru, nid yw'n syndod o bosibl bod rhanddeiliaid wedi cwestiynu'r dull gweithredu gorau i gasglu a dadansoddi data olrhain am fyfyrwyr a graddedigion.

Er bod rhanddeiliaid yn cytuno, ar y cyfan, fod data cenedlaethol wedi darparu gwaelodlin gyson ar gyfer sefydliadau yng Nghymru, roedd mabwysiadu dull gweithredu mwy systemataidd wedi arwain sefydliadau VET i ddatblygu dulliau gweithredu ychwanegol a rhai penodol i'w colegau neu benderfynu bod y dulliau gweithredu roeddent wedi dod i arfer â nhw – arolygon a thrafodaeth fynychaf – yn ddiwerth. Disgrifiodd un sefydliad, er enghraifft, sut y byddent yn defnyddio'u data presennol i fyfyrio am daith y myfyriwr i gyflogaeth mewn ymgais i gefnogi data Llywodraeth Cymru. Trafododd cynrychiolydd o sefydliad VET hefyd sut roeddent wedi mabwysiadu traciwr cynnydd yn ddiweddar gyda thiwtoriaid y coleg yn darparu cyrchfan ddisgwyliedig myfyrwyr bob mis Chwefror cyn iddynt raddio. Byddai hyn yn cael ei ddilyn gan gyngor ac arweiniad gyrfaoedd cyn i gynrychiolwyr o'r sefydliad gysylltu â dysgwyr ym mis Mehefin cyn iddynt raddio. Mae darparwr trydydd parti yn cysylltu â'r dysgwyr/graddedigion hynny nad ydynt yn ymateb ym mis Hydref (ar ôl graddio). Defnyddiwyd y dull gweithredu hwn am y tro cyntaf yn 2020-21. Mae'r coleg bellach yn gwerthuso a ddylid parhau â'r dull gweithredu hwn.

Disgrifiodd cynrychiolydd o sefydliad VET arall sut roeddent wedi rhoi'r gorau i ddefnyddio'u dulliau gweithredu eu hunain. Roedd eu mesur wedi'i gyflwyno oherwydd bod absenoldeb data cenedlaethol. Roedd y coleg wedi dechrau pryderu am ansawdd y data arolwg roedd tiwtoriaid eu coleg yn ei reoli. Penderfynodd y coleg roi'r gorau i ddefnyddio'u dull gweithredu eu hunain am eu bod yn anghyfforddus yn rhannu gwybodaeth gyda sefydliadau allanol fel arolygwyr y coleg (Estyn). Nododd y coleg VET mai "Un o'r problemau mwyaf gyda data lleol yw cywirdeb; mae'n heriol cael myfyrwyr a staff i ryngweithio gyda hyn. Gall fod yn anecdotaidd iawn a dyddio'n gyflym iawn." Nododd yr unigolyn hwn eu bod wedi penderfynu cefnogi cynllun Llywodraeth Cymru ar gyfer data dilyniant a dibynnu arno fel eu hunig ffynhonnell.

## Cyfle i lunio dull gweithredu cyson mewn partneriaeth â cholegau

Cydnabuwyd y llu o fanteision i ddefnyddio dulliau gweithredu anffurfiol i gasglu darnau allweddol o wybodaeth. Fodd bynnag, roedd yn amlwg bod rhanddeiliaid AB yng Nghymru o'r farn bod angen tystiolaeth ychwanegol i ategu'r broses a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru. Roedd cynrychiolwyr AB yn ansicr am y ffordd orau o ddatblygu'r gwaith olrhain graddedigion. Cydnabu rhanddeiliaid

gyfyngiadau data cenedlaethol gan gynnwys yr angen i helpu sefydliadau VET i ddeall y tinciau islaw unrhyw ddata a thystiolaeth lefel uchel.

Gan sylweddoli'r heriau o ddatblygu a gweithredu polisi olrhain newydd, cododd rhai rhanddeiliaid y posibilrwydd o gynnal arolwg cenedlaethol i ategu ac atodi dull gweithredu systemataidd Llywodraeth Cymru. Roedd yr awgrym hwn yn unol â'r adborth gan gynrychiolwyr mewn gwledydd eraill. Mae gwledydd fel yr Iseldiroedd wedi ceisio cyfoethogi a chryfhau eu system olrhain weinyddol drwy wrando ar farn graddedigion drwy ymatebion arolwg. Ystyriwyd bod y gallu i fyfyrio am ddeilliannau 'caled' a 'meddal' a deall y stori tu ôl rhai o'r ystadegau yn gryfderau i'r dull gweithredu hwn. O edrych yn arbennig ar fesurau olrhain graddedigion VET mewn sefydliadau, awgrymodd y prosiect Tracktion nifer o strategaethau casglu data. Roedd y rhain yn cynnwys:

- casglu gwybodaeth gan fyfyrwyr cyn graddio ac ar ôl graddio;
- defnyddio dull gweithredu cymysg at gasglu data a dolen arolwg drwy e-bost, neges destun, a chyfweliadau dros y ffôn â chymorth cyfrifiadur (CATI).

Roedd rhanddeiliaid o Gymru am fod yn rhan o'r broses a fyddai'n helpu i lunio'r gwaith hwn. Roedd yr ETBs wedi bod yn rhan o'r ddeialog wrth ddatblygu system newydd Iwerddon a arweiniodd at gamu i ffwrdd o'r dulliau anghyson o gasglu data. Nododd y rhanddeiliaid hefyd fod cyfleoedd i rannu arfer gorau mewn perthynas â'r strwythurau mewnol sydd eu hangen i ddarparu a defnyddio dull gweithredu sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

### Dull gweithredu hirdymor â ffocws

Mae'r awydd am ragor o dystiolaeth weithiau'n gallu arwain at ddull gweithredu sydd â llai o ffocws. Roedd prosiect ymchwil Tracktion wedi rhybuddio yn erbyn hyn, yn arbennig wrth ddefnyddio arolygon. Awgrymodd yr adborth gan randdeiliaid o Gymru bod yr un bylchau data a gwybodaeth gan yr holl sefydliadau VET. Yn fras, y rhain oedd yr un meysydd/themâu ag yr oedd y prosiect Tracktion wedi'u harchwilio, h.y. cyfraddau lleoli, cyflogaeth yn gysylltiedig â'r rhaglen VET, amser a dreuliwyd rhwng graddio a chael swydd gyntaf, perthnasedd rhwng cymhwyster a pharodrwydd am waith, ac ati. Mae adroddiad y *Tracktion project contribution to the field of graduate tracking in TVET* (2020) yn darparu gwybodaeth bellach am y meysydd hyn. Mae holiadur Tracktion wedi'i atodi fel Atodiad i'r adroddiad hwn[51].

[51] Cyfraniad prosiect Tracktion i faes olrhain graddedigion mewn TVET (2020) Valnalón. Ar gael yn: https://tracktionerasmus.eu/wp-content/uploads/2020/11/O1_TRACKTION_GraduateTrackingProtocol.pdf (Cyrchwyd 15 Ebrill 2021).

Roedd yr ymchwil hon yn gyfle i archwilio'r themâu a'r cwestiynau yr oedd cynrychiolwyr AB yn teimlo y gallent ychwanegu gwerth at y gwaith olrhain graddedigion yng Nghymru. Roedd y rhain yn drafodaethau cychwynnol a byddai cryn werth parhau i ymchwilio i'r materion hyn. Dylai unrhyw drafodaethau dilynol nodi themâu a chwestiynau cyffredin er mwyn llywio'r drafodaeth ynghylch a fyddai dull gweithredu cyson yn ychwanegu gwerth at waith y sefydliadau AB yng Nghymru.

### Ystyriaeth ar gyfer grwpiau gwahanol o ddysgwyr

Cyfeiriodd sawl cynrychiolydd o wledydd eraill at wybodaeth ychwanegol a gasglwyd drwy eu cysylltiadau a'u perthnasau gyda myfyrwyr, graddedigion, cyflogwyr, ymgynghorwyr gyrfaoedd a phartneriaid eraill. Bu i'r adborth hwn a'r sgyrsiau wella dealltwriaeth darparwyr VET o ddeilliannau eu gwaith e.e. gwerth adborth ar gyfer sefydliadau yn Iwerddon ac Awstria. Dangosodd ein hymchwil gyda rhanddeiliaid yng Nghymru ac Ewrop fod gan staff ddealltwriaeth ddwys o'u sefydliadau a'u cymdogaethau. Awgrymodd cyfweleion yn Ewrop y gallai datblygu'r cysylltiadau gydag alwmni ymhellach helpu i ddwysáu'r wybodaeth hon. Nododd cynrychiolwyr o Gymru y gallai datblygu dull gweithredu cyffredin i bawb tuag at gasglu data eithrio rhai grwpiau o ddysgwyr ac felly dylid ystyried casglu data gan bob carfan o ddysgwyr e.e. prentisiaid a myfyrwyr ag anableddau dysgu. Nodwyd y thema benodol hon hefyd yn ystod digwyddiad lledaenu ein hastudiaeth.

### Dylid hefyd ystyried lledaenu'r prif ganfyddiadau i lywio ymchwil yn y dyfodol

Ensyniodd y rhan fwyaf o'r cynrychiolwyr o wledydd Ewropeaidd eu bod wedi dod i arfer â ffyrdd newydd o weithio gyda thystiolaeth gan raddedigion. Fodd bynnag, roedd anhawster wrth ledaenu'r dadansoddi a'r casgliadau o'r wybodaeth hon e.e. y sylwadau a gafwyd gan gynrychiolwyr o Sbaen. Ar gyfer y rhanddeiliaid o Gymru, roedd awydd cryf i wella cyfathrebu a mesurau adrodd.

Roedd y gallu i wneud penderfyniadau gwybodus a strategol yn ofyniad pwysig ar gyfer rhanddeiliaid o Gymru ac un o brif ganfyddiadau prosiect Tracktion. Amlygodd Tracktion bwysigrwydd cyhoeddi a lledaenu'r wybodaeth o fesurau olrhain graddedigion er mwyn sicrhau ei bod yn cyrraedd y colegau, y staff a'r graddedigion dan sylw. Cydnabu'r prosiect hefyd ystod eang o grwpiau targed posibl, gan gynnwys y rhai sy'n gwneud penderfyniadau, myfyrwyr presennol/y dyfodol, teuluoedd ac ysgolion uwchradd.

Darparodd rhai o'r cyfweleion o Ewrop gyfleoedd i edrych ar ffyrdd arloesol o weithio e.e.

- yn y Ffindir, cedwir data olrhain graddedigion ar wefan agored gyda data cyrchfan yn cael ei ddefnyddio at ddibenion cyllid, cynllunio perfformiad a mwy.

- disgrifiodd cynrychiolwyr o Iwerddon sut yr hoffent symud tuag at ddata sydd ar gael yn gyhoeddus mewn amser real gan ddefnyddio system dangosfwrdd.

#### Trefniadau llywodraethu

Ystyriodd yr astudiaeth faterion yn ymwneud â llywodraethu a gweinyddu mesurau systemataidd. Er bod gwahanol wledydd wedi mabwysiadu ffyrdd gwahanol o weithio, roedd yr angen am gydweithredu rhwng adrannau llywodraeth, asiantaethau llywodraeth a sefydliadau'n bwysig.

Clywsom sut roedd gwledydd wedi sefydlu cytundebau rhannu data gyda sefydliadau partner e.e. yn Iwerddon. Mae angen i gytundebau rhannu data nodi diben rhannu'r data, trafod yr hyn sy'n digwydd i'r data ar bob cam o'r broses olrhain, gosod safonau a helpu pob un i fod yn glir ynghylch eu rolau a'u cyfrifoldebau. Dysgom hefyd sut roedd gwledydd eraill wedi "cysylltu'r dotiau" rhwng gwaith ar y farchnad lafur ac addysg. Yn ogystal, mae'r data'n tueddu i fod o ansawdd uchel pan fo cyllid y colegau wedi'i seilio ar y data maent yn ei gyflwyno e.e. yn yr Iseldiroedd. Helpodd sefydlu Grŵp Gweithredu Lleol yn y pum ardal yn Sbaen yn rhan o brosiect Tracktion hefyd gyda dadansoddi a lledaenu gwybodaeth.

Er ei bod yn anodd edrych ar drefniadau llywodraethu posibl heb ddarlun clir o'r modd o weithredu yn y dyfodol, cydnabu cynrychiolwyr o Gymru fod yn rhaid i lywodraethu fod yn faes pwysig i'w ystyried. O ddarparu trosolwg strategol i olrhain graddedigion VET yng Nghymru yn y dyfodol i gefnogi sefydliadau i roi strwythurau cadarn ar waith i gefnogi ymdrechion yn y dyfodol, nodwyd bod llywodraethu yn agwedd hanfodol o'r gwaith.

# 7. Casgliadau ac argymhellion

Mae'r astudiaeth hon wedi cadarnhau pwysigrwydd gallu deall cynnydd a pherfformiad graddedigion yn well drwy fesurau a dulliau gweithredu olrhain VET. Mae ein hymchwil wedi dangos pwysigrwydd tystiolaeth ansoddol a meintiol i helpu i ddatblygu darlun mwy cynhwysfawr am daith myfyrwyr.

Mae'r gallu i fyfyrio am brofiadau ac arferion unigolion sy'n gysylltiedig â'r maes gwaith hwn mewn gwledydd eraill wedi caniatáu i ni nodi ffyrdd newydd ac arloesol o weithio a allai helpu i lywio datblygiadau yng Nghymru mewn blynyddoedd i ddod. Er gwaethaf amhariad yn sgil y pandemig coronafeirws, roeddem ni'n gallu elwa'n effeithiol ar brofiadau'r rhai hynny a oedd yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol gysylltiedig â mesurau graddedigion VET mewn naw gwlad. Er bod olrhain graddedigion wedi datblygu yng Nghymru yn y blynyddoedd diwethaf, mae rhannu gwybodaeth gyda

chynrychiolwyr o wledydd eraill wedi cyfrannu at ein gwybodaeth, wedi ein galluogi i fyfyrio am gryfderau a chyfyngiadau gwahanol ddulliau gweithredu, ac wedi codi nifer o gwestiynau i ni eu hystyried.

Roeddem yn arbennig o chwilfrydig am y mesurau cenedlaethol lle roedd gwybodaeth o ffynonellau data gweinyddol sy'n bodoli eisoes wedi'u cysylltu er mwyn magu dealltwriaeth well o gynnydd dysgwyr. Mae elfennau tebyg i'r enghreifftiau o'r Ffindir, Iwerddon, yr Iseldiroedd, Sbaen ac Awstria o'u cymharu â'r dulliau gweithredu a ddefnyddir yng Nghymru ac mae hyn yn ein helpu i ddatblygu ein dealltwriaeth o'r hyn y gellir ei gyflawni. Gall yr holl ddulliau gweithredu gwahanol gefnogi gwaith yng Nghymru e.e.

- y ffyrdd mae'r Iseldiroedd yn cyfuno data gweinyddol gyda data arolwg cenedlaethol;
- dibyniaeth drom Sbaen ar arolygon y rhanbarthau a'r defnydd o ddata gweinyddol i gefnogi dadansoddi'r data cenedlaethol;
- deall yr hyn y gellir ei gyflawni gyda llai o ddata am gynnydd graddedigion e.e. cyflawniadau'r Eidal a ddefnyddiodd ddata gweinyddol i olrhain cynnydd graddedigion VET ac arolygon cyrchfan Gwlad Groeg.

Yn ogystal â dadansoddi'r mesurau cenedlaethol, darparodd yr astudiaeth hefyd rywfaint o fewnwelediad i'r dulliau gweithredu a ddefnyddiwyd ar lefel darparwr VET. Nododd cyfweleion o Ewrop y gwahanol ddulliau gweithredu a ddefnyddiwyd gan ddarparwyr naill ai i gyfoethogi'r data gweinyddol neu lenwi bylchau mewn gwybodaeth. At ei gilydd, roedd profiadau rhai o'r darparwyr VET hyn yn debyg i brofiadau'r darparwyr hynny yng Nghymru. Roedd yn ddiddorol myfyrio ar sylwadau rhanddeiliaid o Gymru, yn arbennig y pwyslais ar yr angen i gyfoethogi'r dystiolaeth sydd eisoes yn cael ei chasglu am raddedigion AB yng Nghymru. Roedd llawer o randdeiliaid yn rhwystredig at ddefnyddio neu dreialu gwahanol ddulliau gweithredu ar lefel darparwr ond i ganfod bod angen am dystiolaeth bellach i helpu i wneud penderfyniadau gwybodus. Mae'r adborth gan ein rhanddeiliaid yn awgrymu bod olrhain graddedigion VET wedi bod yn faes pryder ers nifer o flynyddoedd ac y byddai arweiniad pellach ynghylch sut i fynd i'r afael â'r mater yn ychwanegu gwerth.

Nid yw'r heriau presennol mae sefydliadau VET yn eu hwynebu wedi gostwng nac oedi'r angen i fynd i'r afael â'r maes gwaith hwn. Mae cyflymder newid gwleidyddol, cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yn golygu bod y byd yn edrych yn wahanol iawn heddiw. Mae rhai o'r newidiadau hyn wedi bod yn ddigynsail ac anrhagweladwy tra bod eraill ohonynt wedi digwydd yn arafach a chyda mwy o fodd eu darogan. P'un a yw'r newidiadau wedi bod yn hysbys neu'n anhysbys, mae sefydliadau

AB, busnesau a sefydliadau eraill wedi gorfod addasu i wynebu heriau gweithredu mewn tirweddau cyfnewidiol. Er enghraifft, mae'r adborth gan ein rhanddeiliaid yn awgrymu bod effaith fyr-dymor ac o bosibl effaith fwy hirdymor y pandemig coronafeirws wedi cynyddu'r angen am fwy o dystiolaeth.

Er bod cydsyniad cyffredinol y gallai tystiolaeth wella'n sylweddol y ffordd mae darparwyr VET yn gwneud penderfyniadau, mae ymestyn ei defnydd yn mynnu camau gweithredu gan randdeiliaid niferus. Mae tystiolaeth o'r adolygiad hwn yn nodi bod rôl i Lywodraeth Cymru, ColegauCymru a sefydliadau AB ar draws Cymru i gytuno ar gyfeiriad olrhain graddedigion VET yng Nghymru yn y dyfodol. Mae angen cytuno ar rôl gwahanol sefydliadau er mwyn pennu pwy sy'n gyfrifol am ba elfennau ar waith olrhain graddedigion VET. Bydd y penderfyniadau ynghylch mesurau neu ddulliau gweithredu yn y dyfodol yn pennu cylch gwaith gwahanol sefydliadau partner. Gallai ymchwil bellach gynnig mewnwelediad pellach i berfformiad myfyrwyr a graddedigion. Fodd bynnag, nid oes rhaid i ddata olrhain fod ar sail niferoedd yn unig, ac nid rhaid ychwaith iddo fonitro allbynnau byrdymor yn unig. Mae dadansoddi data gweinyddol yn tueddu i ganolbwyntio ar ddeilliannau 'caled', ond mae cyfle i ddysgu o wledydd Ewropeaidd eraill ac archwilio ochr 'feddalach' y daith e.e. mae bodlonrwydd myfyrwyr yn dylanwadu faint mae myfyriwr yn mwynhau ei amser yn y coleg a pha mor dda bydd yn ei gyflawni. Mae eu graddau, cyfranogiad ar gyrsiau, perthnasau gyda darlithwyr, presenoldeb a chyflogadwyedd unwaith maent yn gadael oll, i raddau helaeth, yn dibynnu ar faint y gwnaethant fwynhau eu hamser yn y coleg a faint roeddent wedi'u hysgogi. Mae bodlonrwydd myfyrwyr yn hanfodol wrth hyrwyddo bywyd yn y sefydliad. Ceisio ffyrdd o werthuso effaith hirdymor ‘bywyd coleg' ar gyfranogwyr fyddai’r ddelfryd, a gallai fod modd gwneud hyn drwy gysylltiadau â sefydliadau partner, gan ddarparu budd i bawb o bosibl.

Gan fyfyrio ar adborth y rhanddeiliaid o Ewrop, roedd ymwybyddiaeth gref o'r angen i wella mesurau adrodd er mwyn hyrwyddo a chyhoeddi canlyniadau olrhain graddedigion. Esboniodd rhai rhanddeiliaid y gallai ymdrechion ac ymchwil gael eu dyblygu tra bod eraill am i fwy o ddata a data gwell gael ei ledaenu ar y lefel ranbarthol ac ar lefel darparwr. Byddai hyn yn caniatáu i fwy o ddysgwyr, rheolwyr a gwneuthurwyr polisi wneud penderfyniadau gwybodus a strategol.

Gan edrych tua'r dyfodol, mae'n werth amlygu y gallai datblygiadau mewn technoleg arwain at fwy o gyfleoedd i'r sector AB. Gallem weld newidiadau i'r ffordd y caiff data ei gasglu, ei rannu, ei drefnu, ei ddadansoddi a'i adrodd. Roedd cynrychiolwyr o wledydd eraill eisoes yn ystyried eu datblygiadau at y dyfodol, gan gynnwys symud tuag at rannu data amser real drwy system dangosfwrdd. Yn ogystal ag adnabod beth a allai gefnogi'r gwaith presennol o wneud penderfyniadau, mae angen meddwl yn fwy hirdymor i wir ddeall sut gall AB gefnogi dyfodol Cymru.

## Argymhellion

Mae'r astudiaeth hon yn cynnig 10 argymhelliad i randdeiliaid eu hystyried.

1. Mae olrhain graddedigion VET yn faes sydd wedi cael cryn sylw yng ngwledydd Ewrop yn y blynyddoedd diwethaf ac mae hyn wedi arwain at ddatblygiadau newydd a diddorol. O ystyried natur helaeth y gwaith hwn a'r cyfle i wersi ddod i'r amlwg yn sgil rhoi dulliau gweithredu newydd ar waith, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod Cymru'n parhau i fod yn gysylltiedig â mentrau olrhain graddedigion Ewropeaidd.

2. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sefydlu gweithgor i ddarparu trosolwg strategol a chyfeiriad i waith olrhain graddedigion VET yng Nghymru. Yn ogystal â myfyrio ar ganfyddiadau ac argymhellion yr adolygiad hwn, dylai'r gweithgor helpu i lywio'r drafodaeth ac ystyried y gofynion cynllunio ac adnoddau hirdymor.

3. Dylai Llywodraeth Cymru, ar y cyd â'r sector AB yng Nghymru, ddatblygu a chyfathrebu gweledigaeth hirdymor ar gyfer y mesurau systemataidd ym maes olrhain graddedigion VET.

4. Dylai Llywodraeth Cymru, ColegauCymru a sefydliadau AB yng Nghymru fabwysiadu egwyddorion cyffredinol a safonau'r Gweithgor Arbenigol[52]. Dylid ystyried cyfoethogi'r data olrhain graddedigion sy'n cael ei ddadansoddi ar hyn o bryd yn rhan o'r dull gweithredu systemataidd, cenedlaethol. Dylai hyn gynnwys datblygu mewnwelediadau pellach ar lefel darparwr VET.

5. Gallai Llywodraeth Cymru, fel y cyllidwyr VET, chwarae rôl allweddol wrth annog dull gweithredu cyson at gasglu data ar draws sefydliadau AB.

6. Dylai Llywodraeth Cymru, ColegauCymru a sefydliadau AB Cymru weithio mewn partneriaeth i sicrhau bod unrhyw ddull gweithredu newydd yn ychwanegu gwerth ac yn osgoi dyblygu neu ychwanegu unrhyw feichiau diangen at y gwaith a gyflawnir ar lefel darparwr.

7. Dylid ystyried darparu cyngor, arweiniad a chyllid i sefydliadau AB i helpu eu cynllunio a'u gwaith o reoli eu hadnoddau mewnol yn rhan o'r dasg o symud tuag at ddull gweithredu sydd wedi'i seilio'n fwy ar dystiolaeth wrth olrhain graddedigion.

[52] Grŵp Arbenigol ar Olrhain Graddedigion (2020), Y Comisiwn Ewropeaidd. Ar gael yn: https://ec.europa.eu/education/sites/default/files/document-library-docs/conclusions-graduate-tracking-expert-group-vet-graduate-tracking-annex-4.pdf (Cyrchwyd 2 Chwefror 2021).

8. Dylai lledaenu ac adrodd prif ganfyddiadau fod yn ystyriaeth allweddol o'r cychwyn cyntaf. Byddai'n fuddiol i'r gwaith hwn petai'r holl wahanol randdeiliaid yn cael eu nodi a ffyrdd effeithiol o gyfathrebu gyda nhw'n cael eu datblygu.

9. Dylid datblygu amserlen glir ar gyfer lledaenu canlyniadau olrhain graddedigion VET yn gyhoeddus. Dylai fod pwyslais hefyd ar ledaenu'r canfyddiadau cyn gynted â phosibl ar ôl i'r canlyniadau gael eu dadansoddi.

10. Dylid ystyried rôl technoleg wrth gasglu data ac ar yr adeg adrodd. Dylai ColegauCymru a Llywodraeth Cymru fyfyrio ar waith sectorau eraill o ran datblygu Dangosfyrddau Strategol fel ffordd symlach o wella cyfathrebu a lledaenu canlyniadau olrhain graddedigion yn effeithiol.